YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MEDI, 1872.

YCHYDIG GYNGHORION I'R SAWL SYDD YN DECHREU BYWYD CREFYDDOL.

NID oes un pwnc o gymmaint pwys, ac yn yr hwn y dylai pob dyn deimlo cymmaint o ddyddordeb, ag ydyw crefydd, oblegid deil berthynas agos â'n defnyddioldeb a'n gwir ddedwyddwch yn y bywyd hwn a'r un sydd i ddôd. Nid oes dim yn ormod i ddioddef nac un aberth yn ormod i wneuthur dros wir grefydd.

1. Na ddysgwyliwch gael troedigaeth mor sydyn a nodadwy fel ag i symud pob amheuaeth oddiar eich meddwl y'nghylch ei wirionedd. Effaith, ac effaith ymdrech caled rhwng drwg a da yn y galon yw troedigaeth. Nid ar unwaith y ceir goruchafiaeth ar nwydau llygredig. Cyn y gellir llwyr orchfygu temtasiynau, rhaid brwydro yn hir â hwynt. Gwaith yw ag sydd yn gofyn llawer o wyliadwriaeth a llawer o ymbil ar Dduw am nerth ei ysbryd. Peth graddol yw gwir droedigaeth grefyddol.

2. Nid yw *cynhyrfiadau dynion*, megys a brofir gan lawer yn amser y peth a elwir diwygiad crefyddol, yn brawf o droedigaeth. Mae troedigaeth grefyddol yn gynwysedig mewn gwir ostyngeiddrwydd, hunan-anhyder, newyn a syched am gyfiawnder, tristwch o herwydd pechod, ac ymdrech barhaus yn ein buchedd feunyddiol i reoleiddio ein meddyliau, ein teimladau, a'n hymddygiad yn unol â gair Duw. Natur, ac nid gradd ein serchiadau, ddylem ystyried yn ein gwaith yn holi i mewn i'n calonau am brawf o'n troedigaeth.

3. Na ddysgwyliwch gael ynoch eich hunan bob peth ydych wedi

glywed neu ddarllen y'nghylch *profiad eraill.* Mae dynion yn gwahaniaethu llawer yn eu profiadau.

4. Na feddyliwch fod crefydd yn egwyddor mor hunan-gadwol a nerthol, fel unwaith y planner hi yn yr enaid, y parha i ffynu a chynnyddu heb ymdrech. Nid yw Duw yn plannu nac yn dwyn i addfedrwydd air ei ras heb eich cydsyniad gwirfoddol yn y defnydd parhaus o foddion, mwy nag yr achosa i'r cynhauaf i wynu ar faes y diog.

5. Na ddysgwyliwch i gael eich gwneud yn ddedwydd gan grefydd oni fyddwch yn Gristion gwirioneddol. Gall y Cristion fod gydâ'r dyn dedwyddaf ar y ddaear, ond rhaid iddo fod yn ffyddlon a diwyd yn ei broffes—rhaid iddo fod yn ddysgybl cywir i Iesu Grist—nid yn unig yn ei alw ef yn Arglwydd, ond yn gwneuthur ei orchymynion.

6. Na fydded i chwi wneuthur ymddygiad a siampl Crist'nogion eraill yn *safon* eich duwioldeb chwi. Ond edrychwch i'ch Beibl a gwelwch pa fodd y dylai Crist'nogion fucheddu, ac yna os y cewch allan fod eich cyfeillion Crist'nogol yn byw mewn ffordd wahanol, yn lle cael achos i deimlo y dylech chwithau fyw felly hefyd, mae genych achos i ofni eu bod hwy yn twyllo eu hunain gan feddwl eu bod yn Grist'nogion pan nad ydynt.

7. Cofiwch fod prawf o'ch bod yn meddianu crefydd yn darfod os y bydd rhyw beth arall yn cael y lle blaenaf yn eich sechiadau a'ch ymgeision. Nid yw crefydd yn lleihau ein serch at ein perthynasau a'n cyfeillion, na'n mwynhâd o bleserau rhesymol; ond y dymuniad i foddio Duw yn ein holl ffyrdd ddylai fod teimlad gorchfygol yr enaid.

8. Na esgeuluswch un amser ddarllen y Beibl. Darllenwch, a myfyriwch ar, ryw gyfran o hono bob dydd, neu o ryw lyfr da arall, gyda gweddi a dwys ymddibyniad ar y Tad Nefol. Mae hon yn un o'r rheolau pwysicaf, ac ni ddylid byth ei thori hyd yn nod am unwaith. Gweddi a'r Beibl yw eich angor a'ch tarian. Maent yn eich dal yn ddiysgog yn llwybr eich dyledswydd, ac yn eich gwaredu rhag temtasiynau.

9. Ceisiwch hyd ag y mae ynoch, trwy bob ymdrech a siampl, i godi safon duwioldeb ac ymddygiad eraill yn uwch nag y maent. Nac ymfoddlonwch ar safon îs nag ymddygiad Iesu Grist. Fel yr Apostol, cyrchwch bob amser "at y nod, am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist Iesu."

10. Byddwch yn ddiwyd i roddi annogaeth i bob peth o ddyben daionus a dyngarol. Bydded fod eich amcan i ymbarotoi i arwain gyda phriodoldeb, pan fydd eisiau, yn holl ddyledswyddau cyfeillach grefyddol. Yn yr oes hon pan mae gweddi ac ymdrech yn foddion i frysio teyrnas nefoedd, bydded i bob Cristion ddysgu arwain gweddiau ac addoliad eraill, yn gystal ag i godi i fyny i'r nef ei weddiau dirgelaidd ei hun.

11. Cofiwch mai prif ddyledswydd dysgybl i Grist, gyda golwg ar eraill, yw eu cyffroi i gyflawniad o'u dyledswyddau crefyddol. Nid oes neb Cristion na all gyfarfod ag un, o leiaf, o'r un feddwl, ar yr hwn y gall gael rhyw ddylanwad; ac os na allwn wneuthur rhyw beth tuag at waredu eraill oddiwrth fywyd annghrefyddol, gochelwn rhag bod yn ddiffygiol mewn ymdrech.

12. Yn ddiweddaf, na wangalonwch os y darganfyddwch eich hun yn ddiffygiol yn rhai o'r nodiadau hyn. Cofiwch mai milwriaeth yw y bywyd Crist'nogol, ac mai yn ei diwedd mae'r fuddugoliaeth. Os y canfyddwch fod eich nerth a'ch penderfyniad yn gwanhau, ewch at yr hwn a ddywedodd, "Digon i ti yw fy ngras i: canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid." Galwch arno; "gan drugarhau, efe a drugarha wrthyt; wrth lef dy waedd, pan y clywo, efe a'th atteb di." Cofiwch mai byr yw yr ymdrech. Bydd yr yrfa yn fuan drosodd.

Y PROPHWYDI IUDDEWIG.

Nid yw yr enw prophwyd yn yr Ysgrythyrau yn cael ei gyfyngu i ddynion a ragfynegant bethau i ddyfod, ond cymhwysir yr enw at addysgwyr crefydd a moesoldeb, prydyddion, ac hyd yn nod at gerddorion. Galwai yr hynafiaid Hebreaidd brophwyd ar bob dyn, yn llawn o deimlad dwfn a difrifol, a fyddai yn dysgu i ddynion feddwl yr Arglwydd.

Dros un cant ar ddeg o flynyddau, sef o Moses i Malachi (1500—400 c. c.) yr oedd gan yr Hebreaid olyniad rheolaidd o brophwydi, ond yn gwahaniaethu llawer oddiwrth eu gilydd yn eu pwerau meddyliol a'u dylanwad moesol. Nid addysgwyr un genedl, sect nac oes, oedd y prophwydi Iuddewig; ond y mae Duw yn llefaru trwyddynt wrth bob cenedl a phob oes o'r byd—wrthym ni yn yr oes ac yn y wlad hon i raddau fel ag wrth yr Hebreaid gynt. Iuddewon a ddrachtiant o ddoethineb a moesoldeb eu tudalenau. Perchir hwy gan Fahometaniaid am eu bod yn cadarnhau athrawiaeth yr undod dwyfol, tra maent yn nerthu ffydd a defosiwn pob Cristion meddylgar a difrifol.

Ychydig iawn a wyddus am hanes personol y dynion sanctaidd hyn, am hyny, rhaid fod pob darluniad o'u bywyd yn dlawd, ansicr, ac ammherffaith. Fel diwygwyr y byd ym mhob oes, a dynion o argyhoeddiadau dwfn, collent olwg arnynt eu hunain yn eu hymdrechion brwdfrydol dros yr achos, i gadarnhad a thaeniad yr hwn yr aberthent eu bywydau, o ganlyniad nis gwyddom nemawr yn rhagor am danynt nag iddynt fyw a llafurio, dioddef a marw. Prydyddiaeth ac nid rhyddiaith yw eu cyfansoddiadau. Maent yn gynwysedig o awdlau a gyfansoddwyd ar wahanol amserau ac achosion. Mae rhai o'r awdlau yn hir a rhai yn fyr; ac y maent wedi eu casglu, a'u gosod y'nghyd yn un llyfr, heb un math o drefn o ran amser na sylwedd.

Hosea.

Mae hwn gydâ'r hynaf o'r prophwydi Iuddewig, gweithiau y rhai sydd wedi dod i lawr i'n hoes ni. Os yw yr adnod gyntaf yn y bennod gyntaf yn iawn-awdurol, yr hyn sydd yn dra amheüus, yr oedd Hosea yn byw yn yr un oes ag Isaiah, ac os y darfu iddo brophwydo trwy deyrnasiad Uzziah, Jotham, Ahaz, a Hezeciah, brenhinoedd Judah, bu fyw yn hir—nid llai na 112 o flynyddau, oblegid y mae cymmaint rhwng dechreu teyrnasiad Uzziah a diwedd teyrnasiad Hezekiah. At

hyn os chwaneger 20 mlynedd ar gyfer ei oedran pan y dechreuodd ei swydd brophwydol, bu fyw nid llai nag 132 o flynyddau, yr hyn sydd yn dra amheüus. Mae yn lled debygol, am hyny, mai chwanegiad gan law ddiweddarach yw'r adnod gyntaf, ac i fod gwaith y prophwyd yn dechreu yn yr ail adnod.

Yr oedd yn fab i wr o'r enw Beeri ac yn perthyn i lwyth Issachar. Yr oedd yn ddeiliad o deyrnas Israel, yr hon y pryd hwnnw oedd yn dynesu yn fuan at ei diwedd, pan y dymchwelwyd hi gan Salamasar ac y cariwyd y deg llwyth i gaethiwed. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 750 cyn geni Crist. Gwel y darllenydd gan hyny, pan fyddo yn darllen prophwydoliaeth Hosea, ei fod yn darllen gwaith a gyfansoddwyd ys mwy na chwech cant ar hugain o flynyddau yn ol!

Dyben y prophwyd yw ceryddu pobl Israel am eu pechodau a'u heilyn-addoliaeth cywilyddus, cyhoeddi barn Duw ar y genedl wrthnysig, a rhybuddio pobl Judah rhag canlyn siampl eu brodyr yn nheyrnas Israel, prif ddinas yr hon oedd Samaria lle yr oedd y prophwyd yn byw. Y'mhlith prophwydoliaethau eraill mae Hosea yn rhagfynegu gwaredigaeth dan Senacherib, cospedigaeth Judah a dinystr eu dinasoedd, rhoddi annogaethau o flaen Israel i ddiwygio eu buchedd bechadurus a throi at yr Arglwydd eu Duw, yr hwn sydd yn barod yn wastad i faddeu a'u derbyn yn ol i'w ffafr ar eu hedifeirwch.

Gydâ golwg ar ieithwedd *(style)* Hosea, gellir sylwi ei bod yn hytrach yn fyr, brawddegol, a serth, Ei gydmariaethau a'i droellau ymadrodd ydynt yn fwy bywiog na thlws. Nid ydynt yn neillduol o gywir, ond y maent yn rymus ac i'r pwrpas. Mae un peth ag sydd yn dra neillduol mewn cyssylltiad â hanes a gweinidogaeth Hosea, sef y gorchymyn iddo gymeryd menyw anfoesol yn wraig—"Dos a chymmer i ti wraig o odineb a phlant o odineb: o herwydd y mae y wlad, gan butteinio, yn putteinio (yn putteinio yn fawr) oddi ar ol yr Arglwydd," pen. i. 2. Mae rhai esbonwyr yn arswydo wrth y fath orchymyn, ac o ganlyniad yn ei ddeall yn ddammegol. Barna eraill mae gweledigaeth ydoedd. Pa fodd bynag, ymddengys oddiwrth yr hanes i'r peth gymeryd lle yn llythrenol, ac i fod yr undeb priodasol yn arwydd o fuchedd eilun-addolgar Israel yn yr amser hwnnw. Yr oedd yn arfer gan y dwyreinwyr, ac y mae yn para hyd y dydd heddyw, i draddodi eu meddyliau, nid mewn geiriau, ond yn fynych trwy arwyddion. Gwyr y sawl sydd yn hyddysg yn yr Ysgrythyrau am ddigon o enghreifftiau yn profi hyn. Pwy na wyr am waith y prophwyd Agabus (Actau xxi. 11) yn cymeryd gwregys Paul, ac yn rhwymo ei ddwylaw ef a'i draed, fel arwydd y byddai i berchenog y gwregys gael ei rwymo yn Jerusalem a'i draddodi i'r cenhedloedd? Adrodda Clemens Alexandrinus i un o'r enw Idanthura, brenin y Scythiaid, ddanfon i Darius, pan oedd wedi croesi yr afon Istrum, nid llythyr i ddyweyd wrtho y buasai yn arwain byddin yn ei erbyn, ond llygoden, broga, aderyn, gwaew-ffon, ac aradr, fel arwydd o'i fwriad. Felly gorchymynir i'r prophwyd i gymeryd gwraig odinebus yn arwydd i Israel eu bod yn euog o butteindra, sef eilunaddoliaeth. Yr oedd y prophwydi yn arferol o alw yr Eglwys Iuddewig yn wraig Jehovah. Pan fyddai hi, gan hyny, yn myned ar ol duwiau dyeithr, yr oeddynt yn ei chydmaru i wraig

anffyddlon yn gadael ei gwr ac yn putteinio gydâ dyn arall. Dyben y gorchymyn i Hosea i briodi y fath wraig, fel yr addefa efe ei hun, oedd argyhoeddi a cheryddu ymddygiad pechadurus yr Israeliaid, gan nad pa ffordd oeddynt yn cael eu harwain i ganfod y bwriad oedd gan y prophwyd yn y golwg yn ei waith yn cymeryd ato wraig anfoesol.

Yn ddiweddaf, mae llyfr Hosea yn cynwys darluniad o anffyddlondeb yr Israeliaid fel eglwys Jehovah, trwy gymeryd gwraig o'r fath a enwyd (pen. i. 1—9); addewid dychweliad o gaethiwed, a llwyddiant i'r genedl (ad. 10, 11); mae'r prophwyd yn ymddadleu â'r bobl o herwydd eu drygioni, yn bygwth barn Duw, ac yn addaw cymmod (pen. ii.); anghyfanedd-dra Israel cyn ei ddychweliad (pen. iii.); argyhoeddiad o fuchedd annuwiol y bobl (pen. iv. 1—14, 17, 19), a rhybudd i bobl Juda rhag cael ei llygru gan eilun-addoliaeth Israel (ad. 15, 16); barnedigaethau Duw yn erbyn yr offeiriaid, y bobl, a thywysogion Israel (pen. v.); achwyniad o herwydd ystyfnigrwydd a drygioni y bobl ac annogaethau teimladwy i edifeirwch (pen. vi., vii.); bygythion dychrynllyd o gaethiwed, cyfyngder, a dinystr Israel o herwydd eu pechodau a'u heilun-addoliaeth (pen. viii. 1—xi. 7); ymddadleuon teimladwy â'r bobl, yn eu hanog i edifeirwch, yn gynwysedig â bygythion o farnau arswydus os na wnant edifarhau (pen. xi. 8—xiv. 3); a mynegiad prophwydol o ymchweliad yr holl lwythau, eu hymadawiad ag eilunod, a gogoniant y dydd diweddaf (xiv. 4, hyd y diwedd).

Y wers fawr a phwysig sydd i ni dynu oddiwrth brophwydoliaeth Hosea yw, fod buchedd bechadurus pob cenedl yn diweddu mewn cosp lym, os nid mewn dinystr. Nid oes dim eisiau fod y gosp yn cael ei gweinyddu mewn modd goruwch-naturiol, oblegid yn ol rhagluniaeth Duw yn llywodraeth y byd, mae ymddygiad annuwiol cenedl, fel personau unigol, yn rhoddi bodolaeth i amgylchiadau dinystriol, megys rhyfeloedd, a ddiweddant fynychaf mewn trallod ac ing i'r genedl a fu y prif achos o honynt, oblegid y mae pob pechod yn cynwys ynddo ei hun hadau cerydd i'r hwn sydd yn ei gyflawni. Mae y sylw hwn yn eithaf adnabyddus i bawb a ddarllenant yn fyfyrgar ac ystyriol hanes cyfodiad, mawredd, a chwymp cenhedloedd. Beth fu yn achos o ddinystr Groeg a llywodraeth eang a phwerus y Rhufeiniaid? Onid buchedd loddestgar a phechadurus eu trigolion? Felly hefyd lywodraeth deg llwyth Israel. Er gwaethaf cynghorion a bygythion y prophwyd Hosea, darfu i'w rhyfyg, a'u balchder, a'u hymddygiad anghyfiawn a llygredig, gyffroi yn eu herbyn ddigofaint brenhinoedd Assyria, yr hyn yn y diwedd fu yn achos o ddinystr Israel, a chaethiwed ei bobl mewn gwlad estronol. O na wrandawsent ar lais y prophwyd cyn iddi fyned yn rhy ddiweddar!

Mae natur dda anwariaid yn fwy Duwaidd na sel ffyrnig Cristion.
Addewid fawr yw enaid hysbysiad (*advertisement*).
Anfynych yr à'r genau yn iawn pan fyddo'r galon maes o dôn.
Mae rhesymau ofer yn niweidio pwys rhai da.
Ni ddylai ofn anghyssondeb byth lyncu i fyny ofn cyfeiliornad.
Nid yw bara yn fwy angenrheidiol i gynhaliaeth y bywyd naturiol nag yw crefydd i'r bywyd ysbrydol.

Esboniadau.

Ioan i. 1.—*Yn y dechreuad yr oedd y gair a'r gair oedd gydâ Duw, a Duw oedd y gair.*] Mae pob dyn wedi dysgu *pelto* yr Undodiaid â'r adnod hon, am hyny nid anfuddiol fyddai i ni ei hesbonio unwaith eto, er efallai am y degfed tro ar hugain. Yn gyntaf beth yw'r esboniad Trindodaidd? Hyn ydyw :—Y gair yw Iesu Grist ac y mae efe yn Dduw, o ganlyniad synwyr yr adnod sydd fel hyn :—"Yn y dechreuad oedd Duw, a Duw oedd gydâ Duw, a Duw oedd Dduw," fel pe dywedid, "Yn y dechreuad yr oedd Pedr, a Pedr oedd gydâ Pedr, a Pedr oedd Pedr." Pwy synwyr sydd yn hyn? Dim. Y casgliad yw fod yr esboniad Trindodaidd yn gwneuthur i'r Efengylwr i siarad ffolineb? Hefyd, beth yw gair? Onid dynodiad o feddylddrych ydyw yn cael ei gyflwyno i'r glust trwy gyfrwng y peiriant ymadroddi, mewn cydweithrediad â'r awyr? Am hyny, yn y dull allanol o hono, swn yw gair. Os felly, ni all gair gael ei wneud yn berson neu yn fôd. Gwrthun yw honni y fath beth; er hyny dyma wna'r esboniad Trindodaidd o'r adnod hon, sef i fod swn—awyr—neu beth bynag yw gair, yn cael ei draws-sylweddoli yn berson neu fôd—bôd yn meddu priodoleddau, nid llai na phriodoleddau y Duwdod ei hun! Am hyny yr ydym yn rhwym o wrthod yr esboniad Trindodaidd. Yn nesaf, beth yw meddwl yr awdwr? Heb wario amser i erlid amrywiol esboniadau dysgedig, ac efallai heb fod nemawr gallach, dywedwn yn fyr ac ar unwaith, mai egwyddorion yr Efengyl ddeallai yr awdwr wrth y "gair" yn yr adnod hon. Yr un peth ag a feddylia wrth "oleuni" yn adnod 4. Mae'r gair "doethineb" yn yr wythfed bennod o'r Diarhebion yn cael ei arferyd yno yn agos yn yr un synwyr. Cynghorem y darllenydd i droi at y bennod honno a'i darllen yn bwyllog. Hefyd, wrth y "dechreuad" y deallwn, nid dechreuad gweinidogaeth Crist, fel y tybia rhai, ond "er tragwyddoldeb," fel pe dywedasai yr awdwr, "Mae egwyddorion yr Efengyl—egwyddorion teyrnas nefoedd—goleuni y bywyd tragwyddol—wedi bod mewn bodolaeth er tragwyddoldeb—yr oeddynt gydâ Duw erioed, fel y gellid dyweyd mewn ystyr mai Duw ei hun ydynt—mor gydsyniol ynt â'i natur. Yr oeddynt gydâ Duw er tragwyddoldeb. Trwyddynt, neu yu gysson â hwynt, mae pob peth wedi bod—pob peth yn llywodraeth Duw—pa un ai yn y greadigaeth allanol neu foesol. Ynddynt y mae bywyd—gwir ddedwyddwch dynion—wedi bod erioed. Hebddynt nid oes dim gwir ddedwyddwch i neb. Maent yn llewyrchu hyd yn nod yn y tywyllwch mwyaf paganaidd—yn nghydwybodau a chalonau dynion y'mhob oes a gwlad; ond nid oes neb yn gallu eu hamgyffred yn iawn, o herwydd anwybodaeth. Yr oedd gan lawer ryw ddrychfeddwl gwan am danynt, ond ni chawsant y fath afael ar y deall â dyfod yn rheol buchedd, ond yn awr y maent wedi cael eu hegluro i'r byd trwy Iesu Grist." Dyma fel yr ydym ni yn deall Ioan yn yr adnod uchod mewn cyssylltiad â'r rhai canlynol. Pwy ddichon amheu cywirdeb yr esboniad hwn, neu ar bwy dir?

Ioan i. 14.—*A'r gair a wnaethpwyd yn gnawd.*] Yn ol yr esboniad Trindodaidd rhaid mai meddwl yr awdwr oedd, "A Duw a wnaethpwyd

yn ddyn." Peth ammhosibl ynddo ei hun. Ysbryd yw Duw, ac y mae mor ammhosibl i'r Anfeidrol gael ei wneuthur yn ddyn, ag a fyddai i draws-sylweddoli dyn yn eppa neu yn bysgodyn. Beth! yr Hollalluog yn wan—yr Hollwybodol yn fyr ei wybodaeth—yr Hollbresenol yn gyfyngedig i un lle! A ydyw yn bosibl i baganiaid goleddu tyb mwy plentynaidd am Dduw na hyn? Beth yw meddwl y frawddeg ynte? Dywedyd mae'r awdwr mewn byriaith i'r egwyddorion neu y goleuni ag oedd gydâ Duw er tragwyddoldeb gael eu hegluro i ddyn—y dyn Crist Iesu, hyny yw mewn ystyr, iddynt ddyfod yn gnawd—iddynt ymgorpholi yn yr Iesu. "Daeth y gair yn gnawd," oblegid dyma fel y dylai y gair Groeg *(egeneto)* gael ei gyfieithu yn y fan hon. Mae *gwnaethpwyd* yn hytrach yn camddarlunio meddwl yr awdwr. P'un a oedd y cyfieithydd yn wybodus o'r gwahaniaeth ai peidio, nis gwyddom; ond y mae gwahaniaeth. Mae y cyfieithiad Cymraeg a Saesneg yn taflu rhyw liw Trindodaidd ar y geiriau, yr hyn nid yw yn ngeiriau yr awdwr ei hun, ac nid dyma yr unig fan yn y Beibl lle mae hyny yn bod, fel mae gwaetha'r modd.

Ateb i Ofyniad "S" yn Rhif. Awst, tudalen 187.

Rhuf. v. 14.—*Eithr teyrnasodd marwolaeth o Adda hyd Moses, ïe, arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda, yr hwn yw ffurf yr un oedd ar ddyfod.*

Deisyfir arnom am esboniad ar yr adnod hon ag sydd wedi achosi llawer o ddyryswch meddwl i lawer, ac wedi rhoddi bodolaeth i rai athrawiaethau disail.

Dylai y darllenydd pwyllog gadw mewn cof fod yr Apostol wedi bod yn profi yn y rhan flaenorol o'r llythyr hwn mai rhodd Duw yw'r Efengyl, a rhodd nad oedd dynolryw trwy eu buchedd erioed wedi deilyngu yn y mesur lleiaf. Yr oedd yr Iuddew fel y cenedl ddyn wedi troseddu yn erbyn y goleuni oedd ganddynt. Am hyny ni theilyngent rodd mor ammhrisiadwy werthfawr ag ydyw'r Efengyl.

Yna mae'r Apostol yn myned y'mlaen yn y bennod hon (adnod 12—21) i ddangos fod rhodd yr Efengyl, yr hon sydd yn rhoddi bywyd, yn gyffelyb i'r trosedd ag oedd wedi achosi marwolaeth—fod y naill fel y llall yn annibynol ar deilyngdod neu annheilyngdod dynolryw. Daeth marwolaeth i'r byd, medda, o herwydd anufudd-dod Adda, ac felly o'r ochr arall, daeth bywyd trwy ufudd-dod Crist yn aberthu ei hun dros y byd.

Er mwyn profi fod marwolaeth wedi cael ei achosi gan drosedd Adda, dadleua yr Apostol nad oes pechod a'i gosp, sef marwolaeth, yn bod heb gyfraith; ond yr oedd marwolaeth yn y byd o amser Adda hyd amser Moses, pryd nad oedd cyfraith, o ganlyniad rhaid mai trosedd Adda oedd yr achos o farwolaeth. "Eithr teyrnasodd marwolaeth," medd yr Apostol, "o Adda hyd Moses, ïe, arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda," sef yn erbyn gorchymyn neu gyfraith, am hyny rhaid mai pechod Adda oedd yr achos o'r farwolaeth oedd yn y byd hyd amser Moses, a hyny yn

hollol annibynol ar ymddygiad drwg neu dda. Y casgliad dyna'r Apostol yw fod marwolaeth trwy Adda, a bywyd trwy Grist yn hollol annibynol ar deilyngdod neu annheilyngod dynion—Rhodd Duw yw'r Efengyl. Ei gariad ei hun a'i cyffrodd i'w rhoddi i'r byd.

Dyma feddwl yr Apostol. Mae yn eithaf amlwg i bob darllenydd diragfarn.

Mae genym ddau neu dri o sylwadau i gynyg cyn diweddu.

1. Gofyna "S" p'un ai marwolaeth naturiol neu ynte ysbrydol sydd i ddeall yma. Nid yw'r Apostol yn dyweyd p'un o'r ddwy feddylia. Ein barn ni yw mai marwolaeth ysbrydol sydd i ddeall. Nid marwolaeth naturiol mae Crist yn symud, oblegid mae'r Cristion goreu yn gorfod marw fel yr annuwiol. Marwolaeth naturiol, apwyntiad Duw ydyw. Mae cyfansoddiad dyn wedi cael ei wneuthur yn farwol. Hefyd ni fu Adda farw mewn ystyr naturiol y dydd y pechodd, er y dywedir yn bendant yn yr hanes, "Yn y *dydd* y bwyttâi o hono, gan farw y byddi farw." Mae'r ystyriaethau hyn yn ein harwain i dybied mai nid marwolaeth naturiol a feddylir, am hyny fod y gair *marw* yn hanes y cwymp yn cael ei ddefnyddio yn yr un fath ystyr ag y cyfarfyddir ag ef yn amrywiol fanau eraill yn y Beibl, sef yn dynodi y poen a'r trueni ag sydd y'nglyn â phechod ac euogrwydd cydwybod. Ein barn ni yw fod yr Apostol yn defnyddio'r gair yn yr un ystyr yn yr adnod dan sylw.

2. Mae'r ffaith a gadarnha'r Apostol yma yn annibynol ar yr *argument* a ddefnyddia i'w phrofi. Mae dynion ym mhob oes o'r byd, p'un ai dan gyfraith ai peidio, wedi dioddef marwolaeth o herwydd pechod. Mae cydwybod dyn ei hunan yn ei geryddu am wneuthur drwg—yn ei wneuthur yn druenus. Buasai y gosp hon yr un fath yn annibynol ar ymddygiad Adda. At gydwybod y pechadur ei hunan y dylasai yr Apostol fyned am achos o farwolaeth, ac nid at Adda. Mae ei ymresymiad, am hyny, yn wan, neu o leiaf yn arddigonol. Ym mhellach, mae'r Apostol yn cymeryd hanes y cwymp fel ffaith, ac nid fel aralleg *(allegory)*, yr hyn ydyw mewn gwirionedd. Os y deallir yr hanes yn llythrenol, rhaid credu fod y *nachash*, neu y sarph, yn gallu siarad cyn y cwymp, fel dyn, ac i fod ganddi draed, ac mai pridd yw ei hymborth. Ni cheid gwared o'r anhawsdra pe credem Dr. Adam Clarke yr hwn a ddywed mai eppa, ac nid sarph, sydd i feddwl wrth y *nachash*. Barn yr hynafiaid, na wyddent nemawr am natur creaduriaid oedd, fod y sarph a holl rywogaeth y nadredd yn byw ar bridd; ond yn awr gwyddus nad yw hyn yn wir. Gwyddus eu bod yn ymborthi ar fân-greaduriaid megys brogaid, cwningod, a'r cyffelyb. Nid oes dim synwyr yn hanes y cwymp o'i ddeall yn llythrenol, na gwir ychwaith; ond os y cymerwch ef fel dull arallegol *(allegorical)* i geisio cyfrif am ddechreuad drwg, yn ol arfer y dwyreinwyr o siarad, mae'r hanes yn un hardd ac awgrymiadol. O ran ei natur, mae dyn yn awr y peth oedd cyn y cwymp, ac yn awr mor berffaith ag y creodd Duw ef gyntaf. Cafodd ei greu yn agored i bechu a chael ei lygru gan ei nwydau. Trwy wrthwynebu drwg a gorchfygu temtasiynau mae dyn yn dyfod yn rhinweddol. Trefn ddoeth a daionus Duw yw fod pechod yn y byd. Heb bechod ni fyddai y fath beth a rhinwedd,

ac heb rinwedd ni fyddai gwir ddedwyddwch. Oni bai fod y byd y peth ydyw ni fuasai o werth dim, a threulio amser ofer fuasai byw ynddo. Os y diafol sydd wedi ei wneuthur y peth ydyw, mawr ddiolch iddo am ei waith. Ond ymaith â'r hen ffolineb hyn! y Tad Nefol wnaeth y byd. Efe sydd wedi trefnu pob peth fel y mae, ac y mae ei drefn yn ddoeth a daionus. Pob clod a mawl i'w enw sanctaidd ef!

3. Yn ddiweddaf, sylw byr ar iaith yr Apostol yn y bennod hon gydâ golwg ar Grist. Mae yn arferiad gan ysgrifenwyr a phregethwyr Trindodaidd yn awr, pan yn ysgrifenu neu yn dyweyd rhyw beth a fyddo yn sawri o Undodiaeth, i daflu brawddeg i mewn, cyn diweddu, i ddiogelu "ei dduwdod," neu yn rhyw fodd i wneud i'r darllenwyr neu'r gwrandawyr i gredu nad ydynt yn Undodiaid. Mae hyn yn awr yn arfer lled gyffredin. Nid anfynych y clywir llawer pregethwr Trindodaidd yn traddodi pregeth gall, synwyrol—pregeth eithaf Undodaidd yn ei hegwyddorion. Er hyny, rhag ofn, debygem, yr elai y gwrandawyr ymaith dan yr argraff fod Mr. Hwn-a-Hwn yn tueddu yn gryf at Undodiaeth, fe dafla ychydig frawddegau i mewn a fyddo yn dangos i'r gwrandawyr nad yw, er hyny, yn Undodwr. Hyny yw, fe dyna i lawr â'i *biccas*, cyn diweddu, yr hon oedd wedi adeiladu mor ddeheu. Nid ydym yn dyweyd dim am onestrwydd neu anonestrwydd yr arfer. Crybwyll y ffaith ydym ni. Yn awr, gellid dysgwyl y buasai i'r Apostol wneuthur rhyw beth cyffelyb yn y bennod hon. Yn yr adnod dan sylw, dywed am Adda, "Yr hwn yw ffurf yr un oedd ar ddyfod," sef ffurf o Grist. Mae meddwl yr Apostol yn eithaf amlwg. Sylwi mae fod Adda o ran canlyniad ei ymddygiad yn debyg i Grist. Yr oedd anufudd-dod un, ac ufudd-dod y llall, yn effeithio ar ei hiliogaeth. Yn yr ystyr hyn gosoda'r Apostol Adda ar yr un tir â Christ. Yn awr, rhesymol fuasai iddo, yn gyffelyb i arfer y Trindodiaid, osod adnod i mewn i ddiogelu "ei dduwdod," neu i luddias yr argraff gael ei gwneud ar feddyliau y Rhufeiniaid, fod yr Apostol yn credu mai dyn yn unig oedd Crist fel Adda, hyny yw, fod yr Apostol yn Undodwr. Ond nid oedd gair ganddo i luddias y fath argraff—dim o'r hyn a elwir yn Saesneg *saving clause*. Beth gasglwn oddiwrth ddystawrwydd yr Apostol, ond hyn, sef na wyddai ddim am y fath athrawiaeth a "Duwdod Crist?" Ym marn yr Apostol, o ran ei natur nid oedd Crist yn uwch nag Adda. Dyn oedd y naill fel y llall.

Dyfod at y Gydwybod.—Yr oedd gweinidog yn ddiweddar oddeutu gadael ei gynulleidfa i'r dyben i ymweled à Llundain ar neges nad oedd o gwbl yn felus—i gasglu at dalu dyled ei dy cwrdd. Cyn cychwyn ar ei daith galwodd y'nghyd brif aelodau yr eglwys, ac a ddywedodd wrthynt, "Os gofynir i mi p'un a ydym wedi gwneuthur yn gydwybodol yr hyn a allem at dalu y dyled; pwy ateb roddaf iddynt? Frawd Jones, beth ddywedwch chwi?" "Wel, Syr, os y deuwch at gydwybod, nid wyf yn meddwl y gallaf ddyweyd dim." Gofynodd yr un cwestiwn i frawd arall, ac i'r trydydd, ac felly yn y blaen, a rhoddwyd yr un ateb, fel o'r diwedd y casglwyd y swm oedd yn ddiffyg, ac nid oedd eisiau mwyach i'r bugail i drwblu ei enaid i fyned i Lundain ar y fath neges diflas.

Mae yn wir am lawer o ddynion nad yw eu cof ddim ond rhes o fachau i hongian gwg arnynt.

IECHYD.

Nid yw dywediad Pascal* yn hollol ddisail—"Wrth geisio gwneuthur eu hunain yn angylion, mae dynion yn gwneuthur eu hunain yn anifeiliaid." Esgeulusant a dirboenant eu cyrph yn eu gwaith yn amcanu at ysbrydolrwydd annaturiol. Mae dau fath o feudwyaeth, neu yn Saesneg *asceticism—duwinyddawl* a *philosophaidd.* Dyben y blaenaf yw gwneuthur iawn am bechodau. Meddylir fod llid Duw yn cael ei ddofi trwy boeni y corph. Ymdrech meudwyaeth philosophaidd yw rhyddhau yr enaid o gaethiwed y corph a dylanwadau diraddiol natur (fel y tybir), a'i ddyrchafu i wir ddyben ei fodolaeth trwy ei wneud yn uwch na phoenau a phleserau anianol. Er hyny, braidd dan bob math o grefydd a philosophi, mae cyfraith natur, ryw fodd neu gilydd, yn cael ei chydnabod, sef fod yn rhaid gofalu am iechyd y corph. Mae y gofal crefyddol a delid yn y dwyrain i fwydydd, diodydd, ac amryw olchiadau, yn brawf o hyn. Ac yn y grefydd Gristionogol, er y gosodir pwys mawr ar y gwahaniaeth sydd rhwng cnawd ac ysbryd, a'r dyledswydd o ddarostwng nwydau y corph, a'u dwyn dan lywodraeth yr ysbryd, er hyny nid oes dim ynddi a duedda i greu difaterwch y'nghylch y ddyledswydd o dalu sylw priodol i reolau iechyd. Pan ystyriom am y corph, mai peiriant galluoedd ac ymgeisiadau goruchel y meddwl ydyw, a bod eu gweithrediadau yn ymddibynu ar ei iechyd, nis gallwn lai na chanfod ei fod yn gofyn y gofal mwyaf. Mae gweddi yr hen foesolydd hynafol am "feddwl cryf mewn corph iachus"—*mens sana in corpore sano*—yn cynwys prif elfenau dedwyddwch dyn yn y byd hwn. Ynddo ei hun, cyflwr o fwyniant yw iechyd, ac y mae yn sylfaen pob mwyniant arall. Heb un dyben, gan hyny, yn uwch na hunan-les, mae yn ddyledswydd ar bob dyn i gymeryd gofal am iechyd ei gorph, yr hwn, yn gystal â chynheddfau y meddwl, mae Duw wedi ymddiried i'w ofal.

Yr ydym wedi awgrymu fod iechyd y corph yn anhepgorol i iechyd a grym y meddwl ei hun. Pwy na wyr yn brofiadol fod afiechyd yn rhwystr i'r ymarferiad a'r ddysgyblaeth ag sy'n ofynol i ddadblygiad *(developement)* ei gynheddfau? Mae pob archwaeth at gelfyddydau a'r gwybodau dengaraf yn darfod gydâ'r iechyd! Hefyd, mae colli iechyd yn anaddasu dyn i gyflawni dyledswyddau bywyd, ac yn creu math o syrthni a difaterwch gydâ golwg ar bob peth a ddeil gyssylltiad â lleshad a dedwyddwch cymdeithas. Dan nychdod dolur mae dyn yn

---

* Ysgrifenwr nodedig oedd Blaise Pascal a anwyd yn Clermont, Avergne, yn 1623. Ei dad oedd *Stephen Pascal, mathematician* rhagorol a chyfaill i *Descartes.* Symudodd i *Paris* er mwyn arolygu yno addysg ei fab yr hwn a wnaeth gynnydd mor gyflym mewn dysgeidiaeth fel ag yr ysgrifenodd draethawd ar y *Conic Sections* pan yn 16 oed. Yn nesaf, trodd ei sylw at *Natural Philosophy,* ac a gyhoeddodd *experiments* (profion) ar bwysau yr awyr mewn gwahanol uwchderau. Darfu iddo hefyd ddarganfod *solution* (egluriad) i ofyniad a gynygwyd gan *Mersenne* y'nghylch y cwrb a elwir *cycloid* (ffurf-gylch) a wneir gan olwyn mewn symudiad. Dyma ddiwedd ei fyfyrdodau rhifyddawl, a phan yn 24 oed trodd ei alluoedd at bynciau crefyddol. Wedi treulio bywyd crefyddol caled (*austere*), bu farw yn 39 oed, sef yn y flwyddyn 1662. Cyfansoddodd lawer yn ei oes fer, oblegid cyhoeddwyd yn 1779 ddim llai na phump cyfrol wyth-plyg o'i waith.

myned yn anniddig a drwg ei hwyl—yn faich iddo ei hunan ac weithiau i'w berthynasau agosaf. Dylai pob dyn, mae yn wir, fod ar ei ofal rhag rhoddi lle mewn afiechyd i dymherau anniddig, a dioddef ei ddolur yn amyneddgar; ond ymddibyna hyn i raddau mawr ar natur y dyn, ac efallai ar ei gydwybodolrwydd p'un a yw wedi bod yn offerynol ai peidio i ddwyn ei hun i'r cyflwr y mae ynddo. Mae yn amlwg fod yn ddyledswydd ar bob dyn a chwenycha dreulio bywyd rhinweddol, dedwydd, a gwasanaethgar yn y byd, i gymeryd pob gofal rhesymol am iechyd y corph. Heb iechyd nid yw dyn fawr iawn o werth iddo ei hunan nac i eraill.

Rhy faith fyddai i ni yn bresenol grybwyll pob peth a ddeil gyssylltiad â chynal iechyd, ac yn wir nid dyma ddyben yr erthygl byr hwn; ond y mae un peth neillduol a ddymunem enwi fel yn cael effaith nid bychan ar iechyd dynion. Y peth ydym yn feddwl yw *glanweithdra*, neu yn Saesneg *cleanliness*.

Annogir ni i gadw ein cyrph, ein gwisgoedd, a'n haneddau yn lan gan ein teimladau naturiol, oni fyddir wedi ymarfer â brynti, fel mae rhai. Mae glanweithdra yn gynhorthwy uniongyrchol i iechyd y corph a phurdeb y meddwl. Achosir mwy na hanner heintiau ein gwlad gan aflendid a brynti. Pan y del y *cholera* i'r gymydogaeth, mae yn ffaith mai â'r dynion a'r anneddau mwyaf brwnt yr ymwel gyntaf. Mae hefyd yn ffaith nad yw y sawl sy'n ddiofal y'nghylch glanweithdra a phurdeb eu cyrph yn nodedig iawn am burdeb ac ysbrydolrwydd eu meddwl. Mae y dynion sy'n frwnt eu cyrph fynychaf yn frwnt eu tafod a'u buchedd. *Cleanliness is godliness*, medd y Sais. Nid oes dim amheuaeth nad yw glanweithdra yn elfen fawr mewn duwioldeb. Dyma'r rheswm, debygem, fod talu sylw i lendid a phurdeb yn rhan nodedig yng nghyfraith Moses. Pwy all ei darllen heb ganfod ynddi annogaethau cryfion i ymgadw oddiwrth bob math o fudreddi, ac i fynych ymolchiadau? Mae ynddi orchymynion caeth i gadw y corph yn lan. Hefyd mae rhyw beth yn rhagor na sylw damweiniol yn ngeiriau awdwr yr epistol at yr Hebreaid pan yn gorchymyn iddynt *Nesau at Dduw â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau eu calonnau oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi eu cyrph â dwfr glân.*

Efallai na fyddai allan o le, cyn diweddu, i sylwi fod gwrthddadl yn bod o barthed i fuwch-frechu *(vaccinate)* rhag yr haint peryglus hwnnw a elwir y frechwen, a'r doethineb o wynebu heb gyflawn achos glefydau heintus. Dywed *Kant*,* "Yr hwn a fuwchfrecha ei hun rhag

* Immanuel Kant, awdwr Allmanaeg. Ganwyd ef yn Konigsberg yn Prwsia yn 1724, ac yno y bu farw yn 1804. Silliadai ei dad ei enw *Cant*, yr hwn oedd yn enedigol o *Scotland*, a dilewr (*saddler*) wrth ei alwad. Bu yn gweithio dros ryw amser yn Memel, ac oddiyno symudodd i Konigsberg. Yn 1755 gwnaethpwyd ei fab yn Athraw y celfyddydau. Ymgymerodd at draddodi darlithiau poblogaidd ar arddansoddiaeth (*metaphysics*), a bu am flynyddau lawer yn broffeswr yn Konigsberg. Efe yw awdwr yr hyn a elwir y Wyddoneg Feirniadol, neu *Critical Philosophy*, yr hon sydd yn gynwysedig mewn cynyg i sylfaenu pob gwybodau ar egwyddorion cyntefig. Ysgrifenodd Kant lawer, ac nis gellir amheu na fu ei gyfrwysdra ymresymiadol yn foddion i roddi golygiadau newydd i wyddonwyr ar amryw bynciau arddansoddol nad oeddid wedi meddwl am danynt o'r blaen.

y frechwen sy'n peryglu ei fywyd ar ansicrwydd. A ydyw y fath beth yn gyfreithlon?" Mae cyfraith y wlad hon yn gorchymyn buwchfrechu plant, ac y mae'r rhieni dan gosp os na wnant. Nid oes un perygl yn y byd o fuwchfrechiad, os bydd y meddyg yn ofalus fod y frech yn iach, a'r profiad cyffredin yw fod buwchfrechiad yn cadw allan yr haint, neu o leiaf yn ei wneuthur yn ysgafnach pan ddel. Nid yn aml mae'r frechwen yn terfynu yn angeuol os bydd y claf wedi ei fuwchfrechu yn iawn. Ond pa un a ddylem ai peidio wynebu clefyd heintus heb fod achos neillduol yn gofyn, pwnc yw hwn na chymerwn arnom i benderfynu. Ni a debygem mai ynfyd yw'r dyn a wnai hyn yn ddiachos ac yn ddiles i'r claf. Ond beth ddywedwn am y dyngarol John Howard, yr hwn, wedi iddo lawer gwaith ymweled yn amryw wledydd ag ugeiniau o garcharau brwnt a heintus yn achos dynoliaeth, o'r diwedd a gwympodd yn ysglyfaeth i'r pla? Neu ynte am fath Florence Nightingale, yr hon fu unwaith ar fin colli ei bywyd rhadlawn yn ei gwaith yn gweini i angenrheidiau clwyfedigion truenus rhyfel? A yw yn iawn i weinidog yr Efengyl i beryglu ei fywyd i weinyddu cysuron crefydd wrth y gwely heintus? Am y meddyg, yn sicr mae ganddo ef fantais ei addysg feddygol a'i brofiad yn ei ymweliadau proffeswrol. Un peth fentrwn ddyweyd, fod y dyn neu y ddynes a beryglant eu bywyd eu hunain yn eu hymdrech i weini i angenion, ac achub bywydau eu cyd-ddynion, yn deilwng o bob anrhydedd a pharch. Maent yn oreuon ein byd. Am y ddyledswydd nid oes genym ddim i ddyweyd, ragor nag i fod yn ddyledswydd ar ddyn i wneuthur pob daioni a allo. Nid yw yn bosibl gosod i lawr un reol ar y pen, oblegid mae dynion yn gwahaniaethu yn eu cyfansoddiadau corphorol, dewrder moesol, a grym meddyliol. Nid pawb all fod yn John Howard a Florence Nightingale. Dan bob amgylchiad, mae yn ddyledswydd ar ddyn ofalu am un o fendithion rhagoraf y bywyd hwn—ei iechyd. D.

DARN UNDODAIDD SIR ABERTEIFI.

Syr,

Mae llythyr yn dwyn y penawd uchod yn y *Cylchgrawn*, cylchiolyn misol y Methodistiaid, am y mis hwn (Awst), ac yr wyf am dynu sylw Mr. GOLYGYDD a'r bobl hynod hyny a adnabyddir wrth yr enw Cardiaid, ato, oblegid y mae yn dal perthynas a phob un o honynt. Mae y llythyr yn un da, o leiaf y mae yn un dyddorol. Mae'n ymddangos fel wedi ei ysgrifenu mewn ysbryd mwyn a rhyddfrydig, ac y mae pob argoel y bydd yn cael ei ganlyn gan lythyrau eraill. Mae'r awdwr (rhydd ei enw, J. E.,) yn amlwg yn gwybod cryn lawer am yr ardal yr ysgrifena yn ei chylch. Mae'n dywedyd llawer, ond nid yw eto fel wedi myned i mewn i ddyfnderoedd ei bwnc. Gellir casglu oddiwrtho mae syniad pur isel sydd gan y cyffredin o gorph parchus y Methodistiaid am yr Undodiaid, ac nad yw yr ysbryd goreu yn cael ei goleddu gan yr olaf at y blaenaf.* Wrth gwrs, y mae

---

* Nid wyf yn cofio erioed gweled dim yn anmharchus yn yr YMOFYNYDD am y Methodistiaid. Yr wyf wedi bod yn ddarllenwr o'r YMOFYNYDD o'i gychwyniad, ond gall fod fy nghof yn pallu. A fydd J. E. gystal a nodi y mis a'r flwyddyn?

cyflwr ysbrydol yr Undodiaid yn un peryglus. Mae ymgais o bryd i'w gilydd wedi ei wneuthur tuag at eu dychwelyd, ond heb nemawr lwyddiant. Awgrymir fod apostolion y corph wedi esgeuluso eu dyledswydd mewn perthynas â hwy—y darn yn ymddangos megys yn rhyw Bithynia iddynt. Fel y dywedais, y mae yr ysgrif yn ganmoladwy iawn o ran ei hysbryd, ac yr wyf yn gobeithio pan yr el y *missionaries* newyddion allan i bregethu yr efengyl fethodistaidd yn Mesopotamia (Sir Aberteifi) y cant bob groesaw yno, ac y try eu hymdrechion allan yn fendithiol i lefarwyr a gwrandawyr. Yr wyf yn dysgwyl clywed fod y Cardiaid yn barod i dderbyn pob goleuni newydd, ac yn gobeithio y bydd y *missionaries* wedi eu hymgadarnhau â chyflawnder o wybodaeth, fel y gallont roddi ateb boddhaol i unrhyw ofyniadau welo Zulu-aid Ceredigion yn dda i osod ger eu bron. Os gellwch yn rhyw fodd gael lle yn YMOFYNYDD Medi i'r sylwadau uchod, dichon y cewch rai eto ar y llythyr nesaf. A. B. C.

[Yr ydym wedi gweled yr erthygl y cyfeirir ato. Nid ymddengys i ni fod yr awdwr yn cyhuddo'r YMOFYNYDD o siarad yn ammharchus am y Trefnyddion Calfinaidd, na neb enwad arall, yr hyn, mor belled ag a wyddom ni, fuasai yn anwir. Sylwi wna fod yr Undodiaid mor wrthdarawiadol â neb enwad, ac fel prawf cyfeiria at yr YMOFYNYDD, eu cymmanfaoedd, a'u hymddyddanion cyffredin. Nid ydym yn amheu, nac yn chwenych amheu, cywirdeb y sylw. Ystyriwn ei fod yn ddyledswydd ar bawb amddiffyn yr hyn a dybiant sydd wirionedd, ac y mae gwirioneddau crefyddol o'r pwys mwyaf yn ein golwg ni. Nis gall dim fod yn fwy manteisiol i'r gwirionedd na dadleu mewn ysbryd mwyn, cariadus, a gostyngedig, fel dynion yn teimlo ein bod yn agored i gamsyniadau. Nid yn fynych y troseddir yn erbyn yr ysbryd hwn gan yr Undodiaid, ac nid yn unig maent yn barod i wrando yr hyn sydd gan eraill i ddyweyd dros eu golygiadau, ond hefyd i roddi iddynt bob annogaeth i wneuthur felly. Yr oedd Crist ei hun yn wrthdarawiadol mewn un ystyr gyda golwg ar sectau ei wlad, yn neilldiol y Phariseaid. Yr oedd yr Apostolion yn wrthdarawiadol, ac y mae cenhadwyr Crist yn mhob oes wedi bod felly. Pe na fuasai yr ysbryd hwn ynddynt, buasem ni yn Nghymru hyd y dydd heddyw, wrth bob tebyg, yn Dderwyddon. Mewn rhyfel mae Crist'nogaeth wedi bod erioed. Pan ddarfyddo hi fod yn wrthdarawiadol, fe dderfydd fod yn Grist'nogaeth. Ac yn oesoedd boreuol yr Eglwys Grist-'nogol edrychid ar ei milwyr yn mhob man fel "*Paddyaid*"—yn llawn gymmaint felly ag yw Undodiaid Sir Aberteifi yn ngolwg yr enwadau poblogaidd. Rhaid i ddiwygwyr fod yn wrthdarawiadol, ac yn ein golwg ni, diwygwyr yw'r Undodiaid—eu gwaith yw puro Crist'nogaeth oddiwrth y llygreddau sydd wedi ymgymysgu â hi yn ei mynediad trwy'r byd. O leiaf yr ydym ni yn ystyried mai llygreddau yw llawer o'r athrawiaethau a ddelir yn awr. Pa un a ydym yn camsynied ai peidio yw y ddadl rhyngom a phob enwad Trindodol. Cyhuddir ni yn yr erthygl hwn o ddefnyddio iaith ddirmygus am ein gwrthwynebwyr, megys "Hen Fethodistiaid." Ni chlywsom erioed y fath frawddeg yn cael ei harferyd gan yr Undodiaid; ond, wrth gwrs, nis baeddwn haeru nad oes rhai dynion ffol yn ein plith wedi defnyddio y fath iaith. Modd bynag, fel rheol, mae mor lleied o hyn yn ein plith ni ag unrhyw enwad yn Nghymru. Ar y cyfan, mae erthygl "J. E." wedi ei ysgrifenu mewn ysbryd gweddol dda—llawer rhagorach nag a wneir gan Drindodwyr yn gyffredin. Cynnyddu wnelo'r ysbryd hwn. Dioddefed "J. E." genym, er hyny, i sylwi nad yw ef yn hollol rhydd oddiwrth y dôn o anffaeledigrwydd crefyddol a berthyn i Drindodwyr pan yn ysgrifenu ac yn siarad am danom ni, yr Undodiaid. "*Tumour* peryglus ar wyneb glandeg Sir Aberteifi yw Undodiaeth." "Trueni fod Sir mor enwog yn cael ei hanurddo gan y fath sect." "Mae cewri Trindodiaeth wedi bod amser maith yn glanhau y tir." Dyma dôn anffaeledig Trindodiaeth, ac nid yw "J. E." yn hollol rydd oddiwrthi. Nid oes dim amheuaeth gan Drindodwyr, fel y Pab, nad yw'r gwir a'r holl wir yn eu mheddiant. Fel y sylwasom fis neu ddau yn ol, gellid casglu oddiwrth y fath dôn fod ein brodyr Trindodaidd wedi derbyn goleuni oddi uchod, nid hen allwedd St. Pedr, mae'n wir, ond rhyw beth tebyg iddi—rhyw fath o *ddispensation* o lys y nefoedd, i benderfynu y'nghylch gwirioneddau crefyddol, nad yw'r Undodiaid wedi eu**

bendithio â hi, er y dichon y meddant gystal galluoedd â hwythau i chwilio am y gwir, ac nad ynt lawer yn ol iddynt yn eu cariad ato, dysgeidiaeth ddynol, a theimlad o'u hatebolrwydd i Dduw am y defnydd a wnawn o'r breintiau a feddwn. Dymunem weled "J. E.." ag sydd yn ysgrifenu ar y cyfan mewn dull caredig, yn hollol rydd oddiwrth yr ysbryd anffaeledig hwn. Yn ddiweddaf, pe gellid "glanhau" Sir Aberteifi o'r heresi Undodaidd, ni fyddai Undodiaeth farw er hyny. Mae rhyw beth sydd mor naturiol—mor rhesymol—yn y syniadau Undodaidd, fel y torant allan nid yn anfynych yn yr eglwysi Trindodaidd eu hunain. Ceir gwaith mawr weithiau eu cadw allan er cymmaint y gofal a gymerir i gau y drws yn erbyn ein traethodau a'n llyfrau. Dysgwyliwn gyda dywenydd am erthyglau dyfodol "J. E."—Gol.]

Mr. Golygydd,

Dygwyddodd yn ddiweddar ddod i'm llaw lyfryn bychan gan Newman Hall. Ll. D., Teitl y llyfryn yw, *The Man Christ Jesus.* Ar y cyfan, meddyliaf na chyhoeddwyd traethawd erioed yn cadarnhau yn fwy na hwn, y golygiadau Undodaidd y'nghylch person Crist. Er hyny, fel y Trindodiaid yn gyffredin, cymer yr awdwr ofal i hysbysu i'w ddarllenwyr mai Trindodwr ydyw, rhag ofn, efallai, y rhestrent ef yn mhlith Hereticiaid. Ond ymddengys i mi ei fod yn lled wan ar y pen hwnnw. Yr unig reswm a rodda dros gredu yn y peth a eilw *His Divinity*, neu *Ei Dduwdod*, yw fod yn rhaid i'r Iesu feddu ar ddwy natur cyn y gallai fod yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion. "Rhaid i'r fath gyfryngwr," medd, "gyfranogi o fy natur. Os nad yw Crist yn Ddwyfol, yn ei gyffwrdd ef (Duw), yr wyf o hyd yn mhell oddiwrth Dduw; ac os nad ydyw yn ddynol, nis gallaf agoshau ato o gwbl." Dyma reswm rhyfedd anghyffredin dros Dduwdod Crist! Y meddylddrych yw fod Iesu Grist yn sefyll rhwng y pechadur a Duw. Cyn gallo gael dylanwad priodol ar y Tad i faddeu, rhaid ei fod ei hunan yn Dduw, ac er mwyn i ddyn allu dynesu at yr Iesu rhaid iddo gyfranogi hefyd o'r natur ddynol! O ran y wyneb a dry at y Tad, mae'r Iesu yn Dduw; ond o ran y wyneb a dry at ddyn, mae yn ddyn. Felly yn ol Trindodiaeth mae Crist yn fath o *Janus* crefyddol. Mae yr *argument* hwn yn profi gormod, ac felly nid yw yn profi dim. Oblegid am yr un rheswm rhaid fod Moses yn Dduw, am ei fod yn cyfryngu rhwng Jehovah a phlant Israel. Yn wir, Mr. Golygydd, fel y sylwasoch chwi yn rhifyn Gorphenaf, mae mor gryfed, os nid cryfach profion dros Dduwdod Moses na Duwdod Crist. Tyb yw unig sylfaen rheswm Newman Hall yn ei lyfryn. Nid oes iddo un gefnogaeth yn yr Ysgrythyrau. A ydym i feddwl fod Duw yn rhy bell, neu yn rhy uchel, i glywed gwaedd y pechadur edifeiriol, neu ynte yn rhy sanctaidd iddo ddod i'r presenoldeb Dwyfol? Mae yn wir fod gwyr mawr yn barotach i wrando ar wyr mawr o'r un gradd a hwythau, nac ar ddynion bach cyffredin. A ydym i gredu fod Duw yn cyfranogi o'r un fath dymher ammherffaith? A wrendy y Tad ar neb os na fydd ei natur yn uwch na natur dyn? Dyma *argument* Newman Hall. Meddwl wyf fod y dyb wael hon am Dduw yn tarddu oddiar gamsynied y'nghylch meddwl Ysgrythyrol y gair Cyfryngwr. Pan yn meddwl am y rheswm hwn dros gredu fod natur Crist yn ddyblyg, ymgynyga y gydmariaeth a ganlyn yn gryf i'm deall:—Meddylier fod dyn yn cwympo i maes â'i geffyl, ac yn ei geryddu mor llym a chreulon nes cyffroi edrychwr gerllaw i ymresymu â'r dyn y'nghylch ei ymddygiad annynol—yn cyfryngu rhwng y dyn a'r anifail. A oes eisiau, gofynaf, cyn bod y dyn yn addas i gyfryngu rhwng y ddau, ei fod yn cyfranogi o natur dyn a natur ceffyl? Mae y gydmariaeth yn un isel, yr wyf yn addef, ond yn eithaf cyferbyniol. Ni ryfeddem glywed *argument*

mor ddiwerth yn cael ei ddefnyddio gan bregethwyr bach cyffredin na feddant fawr allu i ymddihatru oddiwrth ragfarnau dygiad i fyny, ond yn wir yr wyf yn rhyfeddu peth am un mor enwog â Newman Hall.

Ydwyf yr eiddoch yn barchus,

Danyrallt. E. WILLIAMS.

FFARWEL I GAERFYRDDIN.

FFARWEL Gaerfyrddin lawen,
Yn cbrwydd fe ddaeth diben
I'r amser mwyn i'n fyw yn hon,
Lle goreu o'n daearen.

Ni weli Siams* a Dafydd
Byth ynot gydâ'u gilydd,
Ni weli y ddau gyfaill mwy
'N cyd-rodio trwy 'th heolydd.

Ffarwel i'r Erddi ffynnon†
A'u hoff bleserau mwynion;
Ffarwel hoff ddysgedig nyth,
Nid ai di fyth o'm calon.

Ffarwel i'r oriau difyr,
Dreuliasom ni fel brodyr,
Wrth aros yn y dre' y'nghyd,
A rhodio ar hyd y doldir.

Bêr athraw mwynaidd odiaeth‡
A roddi fawr wybodaeth,
Rhaid in' dros fyth dy adael di
A myned i alltudiaeth.

Ni chawn ni hwyr a borau
Mwy glywed dy ddoeth eiriau,
A draetha'th dafod di fel mêl
Am gyfraith arail moesau.

Ffarwel hyfforddwr union
A mwyn geryddwr tirion,
Ac ni a'th barchwn di fel tâd
Tra paro gwa'd y galon.

P'le bynna bo' ni 'n rhodio,
Mewn pellder wedi 'mado,
Ni chaiff dy wersi, orau ffrynd,
Tra fyddom, fyn'd yn ango.

"*Telyn Dewi,*" tud. 154.

Y nerf nad yw byth yn llacsu, y llygad nad yw byth yn pylu, a'r meddwl nad yw byth yn gwibio—y rhai hyn yw meistri buddugoliaeth.

---

* THE REV. JAMES EVANS, a fellow student and friend of the author's settled at Llanfyllin, 1769.

† ERDDI FFYNNON, Spring Gardens, Caermarthen, where the Academy was during the time the author was a student there.

‡ THE REV. DR. JENKINS, who succeeded the Rev. Samuel Thomas, as classical tutor at the Academy in 1764, when the author entered. The Doctor was a good scholar, critically versed in the Latin and Greek languages.

YR ELEPHANT.

Mae *Elephant* a gyfrifir o gyflawn faintiolaeth yn gymmaint a phymtheg troedfedd o uchder, ac yn pwyso tua phedair mil a phum cant o bwysau. Mae ei gefn yn fwâog, a'i fol yn llaes, yn gyffelyb i fochyn; ei goesau fel colofnau cedyrn odditano, yn dair neu bedair troedfedd o braffder, ac o bump i chwech o hyd, ac eto ei gymalau yn ddigon ystwyth i'w plygu fel y myno; ei draed a ymddangosant yn grynion, fel rhai ceffyl, eithr odditanodd y maent megys yn rhanedig i bump o fysedd mawrion, fel rhai ci, a gwadnau o gorn. Ac o herwydd ei ddirfawr bwysau, mae yn soddi yn mhell i'r ddaear yn mha le bynag y sango, Mae iddo gynffon hir, a siobyn o droedfedd neu ychwaneg o flew ar ei blaen. Nid oes dim blew ar ei groen; eithr y mae yn llwm, yn ddu, yn wydn, ac yn galed, fel nas trywana cleddyf, oddieithr dan ei dor. Ei glustiau ydynt hirion, llydain, a chrogedig; a'i glyw yn nodedig o graff. Ei lygaid ydynt neillduol o fychain, ag ystyried maintioli ei gorpholaeth; er hyny y maent yn hynod o dreiddiol, ac yn meddu gallwoedd rhyfeddol i osod allan deimladau ei berchenog, pa un bynag ai digder ai hoffder. Nid oes ganddo ddim dannedd blaen, i fyny naci lawr; eithr y mae iddo bedwar o gilddannedd mawrion yn yr ên isaf ac yn yr uchaf, â'r rhai y mâl efe ei ymborth i'r mandra mwyaf. Mae ganddo hefyd ddau ysgythr-ddant *(tusks)* mawr yn tyfu allan o'i ên uchaf. Nid yw y rhai'n yn ateb dim o ddybenion dannedd, ac y maent yn llawer mwy tebyg i gyrn, ac yn cael eu defnyddio ganddo yn unig er hunan-amddiffyniad. Mae rhai y fenyw yn gyffredin yn fyrach na rhai y gwryw; yr eiddo ef weithiau a fesurant o ddwy lath i dair o hyd, ac a bwysant yn fynych uwchlaw tri chant o bwysau! Yr ysgythr-ddaint hyn, pan elo y creadur yn oedranus, ydynt yn peri iddo flinder nid bychan, o herwydd eu trymder; ac i'w esmwythâu ei hun, efe a dyr iddynt ddau dwll yn mur ei gôr i'w cynal. Y dannedd yma ydynt y rhan fwyaf gwerthfawr o'r anifail, canys o honynt y gwneir y nwydd godidog a elwir *Ivory*, o'r hwn y ffurfir amryw fath o delmau, ac yr addurnir dodrefn, ac offerynau peroriaeth. Yr ydym yn darllen fod hwn mewn arferiad mor foreu a dyddiau y brenin Solomon. Dywedir yn 1 Bren. x. 18, iddo ef wneuthur "gorseddfainc fawr" o hono: h. y. efe a addurnodd ei orsedd âg ifori. Hefyd yr ydym yn clywed am balasau a gwelyau ifori, Psalm xlv. 8, Amos iii. 15, a vi. 4; wrth yr hyn yr ydym i ddeall, tai a dodrefn wedi eu gorwychu â'r nwydd hwnnw; oblegid nis gellir tybied y defnydd yn ddigonol ei faintioli a'i gryfder i adeiladu ag ef.

Ond y rhan, neu yr aelod hynotaf o'r *Elephant* yw ei dduryn *(trunk)*, yr hwn sydd fath o rolyn hir cenol, o groen, a chig, a gewynau, yn tyfu oddiar flaen ei drwyn. Mae duryn *Elephant* o bymtheg troedfedd o uchder, y'nghylch wyth troedfedd o hyd, a phump a haner o gylch-fesur yn ei fôn, lle y mae braffaf; ac y mae yn wag o'r naill ben i'r llall, a'r gwagle hwnw wedi ei ranu yn ddwy bibell drwyddo oll, i'r rhai y mae dau dwll yn ei flaen, fel dwy ffroen mochyn. Fe fedr y creadur estyn neu fyrâu ei dduryn i'r hyd y myno; ac y mae mor ystwyth fel y medr ei droi a'i ddolenu i'r ystum a ewyllysio.

Trwy hwn y mae yn anadlu ac yn yfed ; â hwn y mae yn arogli, ac yn teimlo. Yn ei flaen, uwch ben ei ffroenau, y mae llipryn o groen yn estyn allan, tua phum modfedd o hyd, yr hwn y mae'r creadur yn medru ei ddefnyddio fel bawd i ymaflyd yn y pethau y byddo am gydio ynddynt ; ac yn y dull hwnw y mae ei afael mor ddiogel fel nad oes dim a wna iddo ollwng. Ac fe ddichon ei ddefnyddio gyda'r fath gywreindeb fel y gall godi nodwydd oddiar y llawr, ac ymaflyd mewn pin ysgrifenu, a llunio llythyrenau ag ef. Mae Ælian yn tystio iddo ef weled un yn llunio llythyrenau Lladin ar fwrdd, wrth gyfarwyddyd ei feistr. A'r un offeryn fe ddadglöa ddrysau, a detyd y cylymau dyrysaf, ac a ddengys gywreindeb anhygoel. Ond pan fyddo'r gwrthrych ag y chwenycho ei symud yn rhy fawr i'w dduryn gyrhaedd am dano, efe a ddefnyddia ddyfais arall, sef dodi blaen y duryn ar y peth, a thynu ei wynt ato, nes ei sugno yn ddigon tyn i allu ei gario ymaith. Hwn hefyd yw y peiriant y mae yn ddefnyddio i gasglu bwyd i'w safn : efe a ymeifl mewn tusw o wair, ac a'i crynöa yn swp i'w geg, ac a'i cnoa fel ceffyl, heb byth gnoi ei gil arno drachefn. A phan elo i yfed, efe a sugna i fyny gymmaint ag a ddalio ; yna efe a dry yr offeryn i lawr i'w safn, gan ei yru i wared i'w wddf islaw cêg ei gorn chwyth, fel pe bai yn myned i lyncu ei dduryn a'r cwbl ; ac yna efe a chwytha drwy ei ffroenau nes ceir clywed y dwfr yn byrlymio trwy ei wddf fel ffrwd i lawr ceunant. Nid yw y creaduriaid hyn byth wrth eu bodd ond lle y caffont ddigon o ddwfr, yr hwn y maent yn wastad yn ei lwydo cyn ei yfed. Mae yn hoff ganddynt lanw eu durynau â dwfr cyn gadael yr afon, a difyru eu hunain ag ef ar hyd y ffordd.

Yn eu gwlad enedigol anfynych y gwelir un o'r Elephantiaid wrtho ei hun ; eithr dewisant ymdeithio yn finteioedd cymdeithasgar, a'r hynaf o'r genfaint yn y blaen, a'r ail hynaf yn y bôn, a'r ieuainc, gweiniaid, a seilion, yn y canol, i gael eu cynorthwyo yn mlaen gan eu cryfach. Yn y drefn hon yr ymfudant o le i le i chwilio am borthiant ; a braidd y meiddia y trigolion eu gwrthsefyll. Pan fyddo y wlad o'u blaen fel paradwys, o'u hôl hwy a'u gadawant fel diffaethwch, gan ddifa pob gwyrddlesni, coed, a glaswellt, a gaffont yn eu ffordd. Am hyny mae'r trigolion yn arswydo eu hymweliad fel ymdaeniad haint, ac yn defnyddio pob moddion i'w cadw draw. Mae byddin o wir arfog yn annigonol i'w hymlid ymaith. Os niweidir un o honynt, mae'r holl genfaint yn ymgynddeiriogi, ac nid oes dim a'u lluddia i ddial ar eu gormeswyr. Ymgyrchant yn ebrwydd tuag at y dyn a wnaeth y sarâd, tarawant ef i lawr â'u hysgythr-ddaint, ymaflant ynddo â'u duryn, a phan ddisgyno, mathrant ef dan eu traed.

Ond dealler fod yr *Elephant* o ran ei natur o dymher dangnefeddus a didramgwydd, ni ymesyd ar un dyn hyd onis cythrudder ef yn gyntaf ; eithr pan dderbynio sarâd, odid na ddiala, ac nid anghofia y troseddwr yn fuan ; efe a'i harogla o hirbell, ac a'i holreinia â'i dduryn wrth ei sawr ; ac er y gellid meddwl y byddai yn hir yn ei oddiweddyd, eto efe a fedr brysuro ei gamrau nes yn fuan ragori ar gyflymdra dyn. Wrth ystyried ei faintioli a'i drwsgleiddiwch mae ei ymsymudiad yn rhyfeddol : efe a â wrth ei bwys mor gynted ag y medr ceffyl duthio ; ac ond ei gymhell, efe a geidw y blaen ar farch ar garlam. Teithia yn

esmwyth dri-ugain milltir yn y dydd, a phan yrer ef yn ddygn, efe a ddybla hyny ymron. Gellir clywed swn ei duth o bell; ac y mae yn hawdd ei olrhain wrth ol ei draed, oblegid eu bod yn soddi yn ddwys i'r ddaear gan ei drymder, er fod ei wadn o byntheg i ddeunaw modfedd ar ei draws.

Bellach, wedi son gymmaint am gryfder, cyflymder, cyfrwysder, a chreulonder yr *Elephant*, y mae yn naturiol i'r darllenydd ddechreu ymholi erbyn hyn, pa fodd y mae yn cael ei ddarostwng, ei wareiddio, a'i hyfforddi i fod yn ddefnyddiol i ddyn. Y dull y mae eu gwledydd genedigol yn ei gymeryd i'w dal a'i dofi, sydd fel y canlyn:—Dewisir clwt o dir yn nghanol y gwastadedd, a chauir ef o amgylch â phalis cadarn o goed cryfion crynswdd, yn groes, ac yn gwlwm â physt cedyrn, i'w cynal, ryw bellder dyladwy oddiwrth eu gilydd; gan adael bylchau cyfleus i ddynion fyned rhyngddynt i mewn ac allan, ac un brif adwy i ollwng yr *Elephant* i mewn, yr hon sydd i'w chau yn ebrwydd, can gynted ag y caffer ef o fewn y cylch. Ac i'w ddenu ef i'r ddalfa hon, cymerir un fenyw ddof o'r creaduriaid, ac arweinir hi drwy y goedwig, a chymhellir hi i wneuthur nâd fel un yn gwaeddi am gydmhar, yr hyn sy'n cynhyrfu y gwryw i'w dilyn yn ddioed. Felly y cyrchir mor gynted ag y gellir tua'r cylch crybwylledig, i'r hwn yr arweinir y fenyw dan nadu o hyd, a'r gwryw a'i canlyna hi yn ddibetrus. Eir yn mlaen yn y dull hwn i gwr pellaf y cylch, yr hwn sydd yn culâu yn raddol, fel na byddo gan y gwryw mo'r lle i ymdroi, fel yn ebrwydd y cauir am dano; ac y gollyngir y fenyw allan drwy fwlch darparedig i'r perwyl. Yn yr amgylchiad hwn, pan welo yr *Elephant* ei sefyllfa a'i siomedigaeth, y mae efe yn dechreu dangos ei gynddaredd a'i greulondeb; i linaru yr hyn, y mae yr helwyr yn darparu y moddion mwyaf effeithiol a fedrant ddyfeisio, megys tywallt llestrieidiau o ddwfr arno, rhwbio ei gorff â dail, tywallt olew i lawr ei glustiau, &c. Wedi hyn, y mae dau *Elephant* dofion yn cael eu dwyn ato, un gwryw, ac un fenyw, y rhai a'i coleddant â'i durynod, tra mae y dynion yn parhau i dywallt dwfr arno. Yn nesaf, mae *Elephant* dof arall yn cael ei ddwyn ato, a fyddo wedi ei arferu i ddysgu rhai newyddion, ac un o'r swyddogion ar ei gefn, i ddangos i'r carcharor ieuanc nad oes eisiau iddo arswydo. Yna yr helwyr a agorant y cylchgae; a thra mae yr *Elephant* dôf yn tywys y carcharor ymaith, mae dau ddofion eraill yn dyfod, un o bob tu iddo, ac yn ei orfodogi i ufuddhau. Wedi hyny, rhwymir ef wrth raffau cryfion am golofn gadarn a baratoir i'r perwyl; a gadewir ef yn y sefyllfa hono tua diwrnod a noswaith, hyd oni byddo ei gynddaredd wedi cwbl ddiffodd. Y dydd nesaf, ceir ei weled yn dechreu ymgymodi â'i sefyllfa newydd, a chyn pen pythefnos, fe fydd yn gwbl ddof fel y lleill. Mae y benywaid yn cael eu dal wrth eu bod yn dyfod i ganlyn y gwryw, gan ei ddilyn o honynt eu hunain i'r ddalfa grybwylledig. Ond y mae y dull o ddal Elephantiaid yn gwahaniaethu yn ol arferiad yr amrywiol wledydd, a grym a dyfais yr helwyr. Y dull uchod a arferir yn gyffredin yn yr India; ond am *Negroes* Affrica, y rhai a heliant yr anifail yn benaf er mwyn ei gig, yn fwy nag er mwyn ei wasanaeth yn fyw; hwy a wnant dwll dwfn yn y ddaear, ac a'i gorchuddiant a chauad gwan o goed a thywarch, y rhai

pan sango yr *Elephant* arnynt, a'i gollyngant ef i'r brâd-bwll oddi-tanodd, o'r lle ni fedr mewn modd yn y byd ddyfod allan. Prydiau eraill, hwy a ymlidiant y creadur i gilfachau y mynyddoedd, lle na byddo le iddo ymdroi, ac yna yr archollant ef o'r tu ol nes y syrthio.—Yn Asia ac Affrica y mae gwledydd genedigol yr anifeiliaid hyn; dewisant gyfaneddu y parthau mwyaf tymerus; canys nis gallant aros gwres mawr, ac oerfel llym sydd fwy anoddefol iddynt.

Wedi eu dwyn i gyflwr o wareidd-dra, a'u gwneuthur yn gymdeithasgar a gwasanaethgar i ddyn, mae eu defnyddioldeb, eu callineb, eu cywreindeb, a'u ffyddlondeb yn dyfod yn adnabyddus; ac yn y cyneddfau hyn oll y maent yn rhagori yn mhell ar yr holl anifeiliaid direswm. Ar ryw olygiad, prin y gellir dywedyd eu bod yn ddireswm; canys yn eu cyfeillach â dynolryw, y maent yn dyfod yn fuan i ddeall eu hysgogiadau, eu hedrychiad, eu llais, ac hyd yn nod eu geiriau! Maent yn cymeryd difyrwch mewn ymdebygoli i ddyn, a rhyngu ei fodd, ac ymfalchio o'i ganmoliaeth, a chael eu haddurno ganddo â thrwsiadau teg a gorwych. Maent yn dangos hoffder o barch, diolchgarwch am gymwynasau, dioddefgarwch mewn cyfyngderau, cydymdeimlad mewn gofidiau: ac ar yr un pryd yn ddialgar am anngharedigrwydd a sarhad, a phob triniaeth anonest a ddangosir tuag atynt.

Maent hefyd yn hynod o synwyrol yn y cyflawniad o orchwylion a roddir iddynt i'w gwneuthur. Mae Mr. D'Obsonville yn adrodd iddo weled dau *Elephant* wedi cael gorchymyn i daflu mûr i lawr, gan addaw iddynt wobr o ffrwythydd a brandi am eu poen. Y ddau ar unwaith a wnaeth gyd-ymgyrch â'u talcenau yn erbyn y mûr, fel dau hwrdd; a hyny drachefn a thrachefn, nes iddynt ganfod y wal yn gogwyddo; ac yna hwy a gyd-giliasant fel nas gorchuddid hwynt dan y dymchweliad.—Gwraig un o swyddogion y Cyd-Fasnachwyr Brytanaidd yn Travancore, sydd yn adrodd ei bod hi yno yn y fl. 1811, ac iddi gael ei synu yn fawr un boreu wrth weled *Elephant*, heb neb yn ei ganlyn, yn dyfod i'r buarth, a chanddo goffr mawr trwm yn ei dduryn. Dododd ef i lawr, ac aeth ymaith, a chyn pen hir dyma ef yn dyfod a choffr arall cyffelyb, ac yn ei osod yn ymyl y llall; gwnaeth yr un modd lawer o weithiau, nes gwneud pentwr mawr o goffrau, gan eu gosod mor drefnus ag y gwnaethai dyn. Erbyn holi, deallwyd mai coffrau oeddynt yn cynwys trysorau un o bendefigion Travancore a fuasai farw y nos o'r blaen, y rhai oedd Llywydd o Loegr yn awr yn cymeryd meddiant o honynt.

Cyflogau Gweinidogion.—Mae'r *English Independent* yn dywedyd:—"Y pwnc pwysicaf mewn cyssylltiad a'r gwahanol enwadau crefyddol yw cynhaliaeth eu gweinidogion. Nid yn unig y'mhlith Ymneillduwyr mae'r anhawsdra hwn yn cyfodi, ond hefyd yn y gyfoethog Ståd-Eglwys. Nid oes un mater yn fwy teilwng o ddifrifol sylw na hwn. Yn y blynyddau diweddaf mae ymborth yn agos yn ddwbwl bris i'r peth oedd, y bunt yn werth llawer llai, ac o ganlyniad y cyflogau, ag oeddent ychydig flynyddau yn ol yn ddigon, ydynt yn awr yn hollol annigonol, i gynal teulu. Er hyny, yr ydym yn credu ei fod yn ffaith fod cyflogau proffeswyr, yn enwedig yn y weinidogaeth, yn aros yr un peth. Nid yw gweinidogion yn cael

mwy yn awr na'r tâl a dderbynient bymtheg mlynedd yn ol, ac fel canlyniad anocheladwy maent yn cael eu gwasgu a'u newynu yn fwy o lawer nag a feddylia eu cynulleidfaoedd. Nis gall dynion cyfoethog ag sydd yn byw mewn llewndid ddirnad pryder a dioddefaint y dynion da hyny, i addysgiadau a dylanwad pa rai yr edrychant am arweiniaeth a chysur ysbrydol. Gallai teulu llawer gweinidog adrodd chwedlau truenus y'nghylch tlodi—tlodi a ddioddefir yn wrol, ie, tlodi ag sydd yn berffaith eglurhad o hunan-aberth. Yn wir, dylai cynulleidfaoedd gymeryd y ffaith hon dan eu hystyriaeth, a pha mor boenus bynag yw meddwl am dani, mae yn gyflawn bryd iddynt wneud ymdrech i gyflawni y diffyg."

Y DIWEDDAR MR. DANIEL THOMAS, DINAS.

Blaenllecha, Pontypridd, Morganwg,
Gorph. 9fed, 1872.

Mr. Golygydd,
Anwyl Syr,

Meddyliais lawer gwaith am ysgrifenu byrgofiant o'r diweddar Mr. Daniel Thomas o'r Ddinas, ger Pontypridd. Ond gan fod fy amser yn brin, a minnau heb fod yn yr arferiad o ysgrifenu Cymraeg ys blynyddau, oedais wneuthur hyny hyd yn awr, gan obeithio y buasai rhyw un mwy cymwys yn yr ystyr yma, yn cymeryd y gorchwyl mewn llaw; er fy mod yn gwybod nad oes neb wedi cael gwell cyfleusdra i adnabod Mr. Thomas yn ei holl drafodaeth gyhoeddus na mi; yr wyf felly wedi cymeryd yr hyfdra i anfon y byrgofiant dilynol, i'w gyhoeddi yn yr Ymofynydd os gwelwch ef yn deilwng o gael ymddangos.

Yr eiddoch yn garedig,

Jenkin Evan.

Ganwyd gwrthddrych ein cofiant yn Rhagfyr, 1810, ym Mhlwyf Llanilltyd Fardre, ger pentref bychan o'r un enw, ychydig filltiroedd i'r dehau o Bontypridd, Swydd Forganwg. Cymydogaeth nad oedd cyfleusdra addysg i'w gael y pryd hwnw yn gyfagos; ni chafodd felly y fantais o addysg foreuol; a phan yn lled ieuanc aeth i wasanaeth amaethwyr ag eraill yn yr ardal, a phan tua phedair-ar-ddeg oed, dygwyddodd amgylchiad a arddangosai ryw beth ynddo gwahanol i'w gyfoedion, rhyw annibyniaeth meddyliol na fynai gymeryd ei arwain gan *hue and cry* ac arferion y rhai a'i cylchynent. Yr oedd mewn gwasanaeth y pryd hwnw gyda boneddig a gadwasai helgwn, a mynych y gelwid arno i gymeryd rhan yn y *sport* o hela; ond nid allai ymbleseru ar y dechreu yn hyn; ac y'mhen ychydig aeth yn atgas ganddo swn y cwn a bloeddiadau'r helwyr. Un noswaith dywyll, gofynodd ei feistr iddo, am ymofyn helgi oddiwrth foneddig arall, a drigfanai rai milltiroedd o bellder, yn barod erbyn bore dranoeth; i hyn y nacaodd yn y modd mwyaf penderfynol; yr hyn fu'n achos iddo gael ymadael â'i le. Yr oedd helwriaeth yn atgas ganddo am weddill ei oes.

Heb fod yn faith wedi hyn, ymgymerodd â gwaith tanddaearol; ac aeth trwy bob math o orchwylion yn dal cyssylltiad â gweithiau glo; yr hyn, gyda deall craff, teimladau hynaws, ac amcanion cywir, a'u cymhwysodd i fod yn un o Arolygwyr Glo-weithiau blaenaf yn ei gylch a feddai deheubarth Cymru.

Priododd yn ieuanc âg un Margaret James, merch ieuanc o'r Ddinas;

nid oedd cyd-oedran y ddau ond oddeutu pedair-ar-ddeg-ar-ugain yn amser eu priodas. Trodd Mrs. Thomas allan yn fenyw ddiwyd, hynaws, a darbodus; hynod o ofalus am ei gwr diwyd a'i phlant bychain. Bu iddynt bymtheg o blant, a chawd magu ychydig ar bob un o honynt, ond bu farw naw o bryd i bryd pan rhwng un flwydd a saith mlwydd mewn oedran; cof genyf gladdu tri yn yr un wythnos o'r dwymyn.

Yr oedd Mr. Thomas, er yn amddifad o addysg foreuol, wedi dysgu darllen ac ysgrifenu, ac yn gyfrifydd rhagorol dda. Bu yn ngwasanaeth yr hybarch Walter Coffin, Ysw., a'r Meistriaid Hunt, fel gweithiwr ac Arolygwr tua deugain mlynedd. Llawer ymdrech gymerai le yr amser hyny, fel sydd yn awr, rhwng meistr a gweithwyr glo, o berthynas i godiad a gostyngiad pris, a phethau eraill yn dal perthynas â gweithiau tanddaearol; ac efe fynychaf yn y Ddinas, pan yn rhes y gweithwyr, fyddai'r prif lefarydd dros y gweithwyr; ac nid oedd y prydiau hyny ond rhyw dri o weithiau glo môr o Gaerdydd i Flaenrhondda. Yr oedd craffder Mr. Coffin y fath, fel na wnelai rhyw ddrelyn y tro i ymddyddan ag ef, hyd yn nod pan fuasai achos y gweithwyr yn eglur dda. Un o brif amcanion Daniel Thomas, fel ei gelwid ef y pryd hyny, oedd cael dealltwriaeth cywir o deimladau ei gydweithwyr ar y pwnc fuasai mewn llaw, ac os na fuasent yn cydweled ag ef, anfynych y cymerai ran yn yr ymrafael ond yn unig fel heddychydd; ar y llaw arall, os byddai'r mwyafrif ag ynte'n cydweled fod eu hachos yn gyfiawn, nid oedd a'i lluddiasai i wneud pob ymdrech ag a allai i gael yr hyn a geisient. Cof genyf un amgylchiad y bu'n gyfyng arno i amddiffyn ei bwnc tra'n siarad â Mr. Coffin y'nghylch codiad pris, a ofynai y gweithwyr am dano, yr hyn a wrthwynebid ei roddi yn ngweithfa'r Ddinas, a'r canlyniad fu i'r gweithwyr sefyll allan, ac wedi bod felly rai wythnosau, llawer o'r gweithwyr felly mewn gwaith oddicartref, yma ac acw, ac yn eu plith Daniel Thomas, yn tori glo yn Dowlais. Ar fore Llun, wrth fyned tua Dowlais, cyfarfu Mr. Coffin âg ef, a throdd ato'n union i siarad am bwnc y *strike*; dywedodd Daniel Thomas wedi rhyw lawer o siarad, mai gwell fuasai ganddo weithio dan ei hen feistr yn y Ddinas, pe buasai *bosibl* dyfod i gytundeb. "O," ebe Mr. Coffin, "yr ydwyt wedi gweled dy gamsynied, nid yw Dowlais cystal ag y meddyliaist ei fod, na chystal a'r Ddinas ychwaith." "Nid felly, Syr," ebe yntau, "enillais fwy o arian yn Dowlais yr wythnos ddiweddaf nag a enillais yn y Ddinas erioed yn yr un faint o amser." "Nid wyf," ebe Mr. Coffin, "yn chwenych dywedyd, Taw, dy anwiredd yw, ond gofynaf, Pa fodd y gelli gyssoni hyn â'r dywediad y buasai'n well genyt weithio yn y Ddinas nac yn Dowlais? Yr wyf yn dy adnabod yn rhy dda, i gredu y byddai'n well genyt weithio yn unrhyw fan i enill llai nag ydwyt yn awr." "Os gwelwch yn dda wrando," ebe D. T., "dyma fy eglurhad, yn y lle cyntaf, mae genyf dy bychan yn y Ddinas yn yr hwn wyf yn trigfanu; yr wyf hefyd wedi ymglymu â chylch o gymdeithion ag y byddai'n anhyfryd genyf ymbellhau oddiwrthynt; ac yn y Ddinas, trwy eich caredigrwydd chwi ac ychydig ymdrech ar ein rhan ninnau, mae ysgol gyfleus i fy mhlant bychain gael ychydig addysg; hyn, gyda

gobaith y bydd i waith y Ddinas gael ei wneuthur yn well, y'nghyd ag ofn y gallai Dowlais gael ei wneuthur yn waeth, a'm cymhellodd i wneud y sylw." Nid oedd angen ymhelaethu.

Yn y flwyddyn 1843 neillduodd Mr. Coffin ein cyfaill yn Arolygydd tanddaearol ar weithfa'r Ddinas, tra 'roedd llywodraeth pob peth ar y wyneb gan Mr. Fisher, wedi hyny ac hyd yn bresenol fel Prif Gynghorydd y *Taff Vale Railway Co.*, ac ar ymadawiad Mr. Fisher a'r Ddinas, a'i ymrwymiad i wasanaeth y cwmpeini uchod, ar ddechreu 1846, gosodwyd Mr. Thomas yn Brif-Arolygydd ar yr holl o weithfa'r Ddinas, yr hon swydd a gyflawnodd yn y modd mwyaf deheuig a chywir, gan roddi'r boddlonrwydd mwyaf trwyadl i'w feistriaid tra bu ynddi. Un amcan fawr fyddai ganddo mewn golwg yn wastadol yn ei gytundebau tua'r gweithwyr oedd, fod elw y meistr a llesiant y gweithiwr cyn belled ag y byddai'n *bosibl* yn gydfynedol â'i gilydd; er enghraifft, na fyddai pris uchel am dorri glo, a phris uchel am dorri daear oddeutu iddo; os *allowance* fuasai raid ei roddi yn herwydd afrwyddineb anarferol mewn lle i wneud gwaith, ei fod yn rhyw gyfran y dunell ar y glo. Ooddiwrth lo oedd y meistr yn cael elw, yna amcanai fod enill y gweithiwr yn gydfynedol â'r pwysau o lo a dorrai, ac nid oedd gweithwyr gonest byth yn anfoddlon i'r egwyddor.

Byddai Mr. Coffin, wedi ymryddhau ei hun fel glo-fasnachydd oddiwrth weithfa'r Ddinas, yn gwahodd Mr. Thomas yn aml i'w weled pan yn Morganwg; a chafodd fyned felly i *Yorkshire*, Llundain, a llefydd eraill yn Lloegr i ymweled â Mr. Coffin. Efe oedd ei brif ddyn ar lawer o achosion tra bu Mr. Coffin byw; a chafodd ei neillduo wedi hyny gan Miss Williams, olynydd Mr. Coffin fel arlwyddes ar weithiau glo'r Ddinas, i weled fod pob gwaith yn cael ei gario allan gan y Milwriad Hunt a'i ddynion yn ddigolled iddi hi fel arlwyddes; ac yr oedd mewn swydd gyffelyb gan rai arlwyddi eraill yn ei gymydogaeth wedi ei ymadawiad fel Arolygydd gweithfa'r Ddinas. Yn nechreu 1866 awgrymodd wrth ei brydhynol feistr y Milwriad Hunt, nad oedd yn teimlo'n awyddus i gario allan weithfaoedd y *Steam Coal* fel oeddid am wneuthur; ac y buasai efallai cystal iddo gael rhyw un arall mwy hyddysg nag ef mewn gweithiau o'r fath, ac y'mhen ychydig rhoddodd rybydd i ymadael, yr hyn a wnaeth yn Ebrill yr un flwyddyn. Darganfyddwyd y *Steam Coal* yn y Ddinas drwy offerynoliaeth Mr. Thomas. Efallai nad anfuddiol fyddai crybwyll yma, fod ymchwiliadau am flynyddau wedi cael eu gwneud yn y Ddinas am y gwythi hyn, drwy *sinko* a thyllu tua thri chant o latheni o ddyfnder am danynt; yr hyn a wnawd yn neillduad Mr. Thomas i'r swydd o Arolygydd, a throdd y cwbl yn aflwyddianus, a'r dyb gyffredinol yn y lle a chan y perchenogion gan hyny oedd nad oedd y *Steam Coal* i'w gael yn y Ddinas o'r ansawdd a thrwch gwerth ei weithio. Nid oedd wedi cael ei ddarganfod y pryd hyny ond mewn ychydig fanau fel y cyfryw, a hyny tua pharthau uchaf Aberdare a Merthyr; manau o ddeg i ddeuddeg milltir o'r Ddinas. Bu'r ysgrifenydd a Mr. Thomas yn ymddyddan lawer gwaith ar y pwnc hwn, a daethom i'r penderfyniad diysgog nad oedd yr ymchwiliadau a wnawd ys blynyddau yn ol yn ddigonol i brofi nad oedd y gwythi gwerthfawr hyn yn bodoli yn y

Ddinas mewn trwch gweithadwy, ac ysgrifenwyd yn y diwedd at Mr. Coffin ar yr achlysur; yr hwn foneddig oedd, fel y sonwyd eisoes, wedi ymryddhau oddiwrth lo-fasnach y Ddinas drwy werthu ei gyfran fel y cyfryw i'w gydfeddiannydd, W. O. Hunt, Ysw., ond eto efe oedd perchenog y *Steam Coal* fel arlwydd; a Mr. Hunt yn awr buai'r pyllau, fel na allasai un o honynt gychwyn drachefn heb gydweithrediad y llall yn rhyw fodd neu gilydd. Wele'n canlyn gyfieithad o'r llythyron a fu'n achlysur i wneud ail archwiliad yn y Ddinas, ac yn y canlyniad, ddarganfyddiad o'r *Steam Coal*, ac i sefydlu cred yn y gymydogaeth a'r ardaloedd cylchynol fod y *Steam Coal* yn gaffaeledig yn y rhanau hyn o logronfa fawr deheubarth Cymru, ac mor werthfawr yma ag ydyw yn y manau y ceir ef o'r ansawdd oreu; ie, ac fel y mae wedi cael ei brofi erbyn hyn, gwythi'r *Steam Coal* ydynt y mwyaf gwerthfawr o holl loion darganfyddedig y byd, i gynyrchu ager a phob gwaith ag y mae angerdd tan yn ofynol er ei gyflawni.

(I'w barhau.)

Bu Farw.

Elizabeth Jenkins.—Gorphenaf 19, yn nhy ei thad, yn 35 oed, Elizabeth, gwraig Griffith Jenkins, saer meini, Felinfach, a merch John a Sarah Davies, Tanygraig, Ystrad. Bu dan gystudd trwm yn agos i ddwy flynedd. Ymgynghorwyd a llawer o feddygon, ond yn gwbl ofer. Gadawodd briod, mab, tad, mam, dau frawd, a chwaer i alaru ar ei hol; hefyd amryw berthynasau a chyfeillion. Bu yn aelod rheolaidd yn Rhydygwin er yn ieuanc, a bu ei rhodiad yn deilwng o'i phroffes. Claddwyd hi yn Rhydygwin. Pregethodd y Parch. W. Rees, gweinidog y lle, cyn cychwyn, a gweinyddodd hefyd yn y capel. Bydded i'w phriod yn ei alar, a'i thad a'i mham a fuont yn ei thrin mor dyner, gael nerth i ymddiried yn Nuw.

Thomas Parry.—Dydd Llun, Gorphenaf 22, Thomas Parry, yn 85 oed, yn Nghwm Rhondda, ger Pontypridd. Un o aelodau ffyddlonaf Hen-Dy-Cwrdd, Cefncoedycymmer. Claddwyd ef dydd Iau canlynol yn nghladdfa yr Hen-Dy-Cwrdd. Hen wr da a duwiol, braidd digyffelyb. Yr oedd yn berchen synwyr cryf, yn fyfyrgar, a'i gof yn mhell tu hwnt i'r cyffredin. Yr oedd bob amser yn bresenol yn y Cwrdd a'r Ysgol Sul, ac yn gwneud ei ran yn helaeth yno yn wastad. Ei holl ymdrech oedd i chwilio maes am y gwirionedd. Yr oedd wedi astudio y Beibl nes oedd braidd ar ei gof. Nid oedd nemawr o adnodau, o ddechreu Genesis hyd ddiwedd Ddatguddiad, nad oedd yn gwybod p'un a fuasent yn cael eu darllen yn iawn ai peidio. Y blynyddau diweddaf yr oedd y cof yn pallu a'r llygaid yn pylu, fel y gorfu arno fyned i aros at ei ferch i Gwm Rhondda, a mawr mor chwithig yr oedd yn y capel ar ei ol! Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Dalgarth, Swydd Frycheiniog, ac mae'n debyg fod ei dad a'i fam yn Fethodistiaid selog iawn. Bu yntau yn aelod gyda hwynt yn moreuddydd ei oes. Pan oddeutu ugain oed, proidodd a symudodd o Dalgarth i Llanymddyfri, ac yno unodd ag Eglwys Loegr. Bu yn glochydd yn Eglwys Llanymddyfri am ryw gymmaint o amser. O'r parthau hyn y symudodd i Gefncoedycymmer. Nid oedd erioed wedi clywed Undodwr yn pregethu hyd nes iddo ddyfod i fyny i'r Cefn, na gwybod fawr am eu syniadau chwaith; ond y'mhen ychydig fisoedd yr oedd yn Undodwr trwyadl. Felly gwelir fod y trangcedig wedi profi llawer o bethau, ac yn sicr wedi dal llawer o bethau da. Nid oedd nemawr o neb a fuasai yn ei guro mewn dadl ar bynciau crefyddol. Dygwyddodd iddo fyned ryw dro i Lanwrtyd i gael meddyginiaeth o'r ffynonau, a chyn pen ychydig amser daeth ei gydymwelwyr i

wybod mae "Sosin" oedd efe, ac aeth yn ddadl frwd rhyngddynt a'u gilydd ar bynciau crefyddol. Cymerodd amryw o fechgyn diragfarn ei blaid ef, a chytunasant am y Neuadd fwyaf oedd yn y pentref i gael cyfarfod a dadleu bob dydd ar ol ciniaw; ac yno yr ymgynullai llawer o bob enwad am rai dyddiau. Pryd hyn yr oedd Parry a'i gof gystal a'i ddeall mor gryf ag y bu erioed. Rhoddai iddynt fwyd rhy gryf. Yr oedd eu cylla yn methu'n deg a'i dreulio, a gorfu iddynt ymadael un ac oll yn y diwedd a'r fuddugoliaeth ganddo ef; a phan oedd ar ddychwelyd adref, ymgynullodd ei gyfeillion y'nghyd i roddi iddo y teitl o "Dr. Parry." Mwy o ddelw yr hen batriarch duwiol hwn fyddo arnom oll. Yr ydym yn ymadael ag ef mewn hyder cael ail gyfarfod mewn byd arall, lle ni bydd angeu i ysgaru rhwng cyfeillion mwy. W. H.

Thomas Evans.—Dydd Sul, yr 28ain o Gorphenaf diweddaf, yn 64 oed, Thomas Evans, Felinfach, Llanwnen, ger Llanbedr. Yr oedd yr ymadawedig yn dad i'r Parch. John Evans, Gellionen, ac yn ddyn diniwed a pharchus yn y gymydogaeth. Claddwyd ef y Mercher canlynol yn Capelygroes, a phregethodd y Parch. T. Thomas ar yr achlysur yn y capel. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, Alltyblacca, a'r Parch. R. C. Jones, Cribin.

David Lloyd.—Dydd Mercher y 31ain o Orphenaf diweddaf, David Lloyd, Hooper, Pwllygeletsh, Llandyssul, yn 90 mlwydd oed. Bu yn gystuddiol am amser maith, a phan ddaeth amser ei ymddatodiad oddiamgylch yr oedd pawb yn barod i ddywedyd, ar gyfrif ei gystudd a'i oedran, ei fod yn amser iddo farw. Claddwyd ef yn Pantydefaid y dydd Gwener canlynol, a phregethodd y Parch. T. Thomas ar yr achlysur.

Jones.—Awst 1, yn Sir Fon, trwy gwympo oddiar gefn ceffyl afrywiog, John, mab Mr. John Jones, Birkenhead, yn 16 oed. Bydded i'w rieni galarus gael nerth y Tad Nefol i'w cynal yn y fath amgylchiad annysgwyliadwy a chwerw, gan ystyried mai Efe sydd yn rhoddi bywyd, ac mai Efe hefyd sydd yn cymeryd ymaith, pryd y gwelo yn dda yn ei ddoethineb a'i gariad. Nid ydynt heb obaith sicr cael ail gyfarfod â'i hanwyl blentyn mewn byd lle na fydd angeu i ysgaru rhyngddynt mwy.

Mary Evans.—Ar yr ail ddydd o Awst, yn 50 oed, Mary, anwyl briod Mr. David Evans, yn awr o Droedyrhiw, Merthyr Tydfil. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. Michael Hughes, Felin Blaenachddu, plwyf Cilrhedyn. Yr oedd yn fenyw dda ac yn aelod gydâ'r Undodiaid yn Pant-teg er pan yn ddeuddeg oed. Claddwyd hi y Llun canlynol yn mynwent yr Hen-Dy-Cwrdd, Cefncoedycymmer. Gweinyddwyd gan y Parch. I. T. Williams, gweinidog y lle. D. E.

James Jones.—Awst 19, yn 77 oed, James Jones, o'r Crynga, Pemboyr. Buasai yn llesghau am tua blwyddyn o amser, er yn alluog hyd agos y diwedd i rodio ychydig o gylch a chymdeithasu a'i gyfeillion. Gedy weddw oedranus a phedwar o feibion, oll wedi ymsefydlu yn y byd, i alaru ymadawiad eu hanwyl dad. Yr oedd Mr. Jones yn enedigol o bentref bychan Llandyssul. Yr oedd o deulu gonest a difrifol, ond ni chafodd gyfoeth i ddechreu ei fyd, eto trwy ddiwydrwydd, cynildeb, a sobrwydd, y'nghyd a hollol blaender a thegwch yn ei fasnach fel marsiandwr yn y cymydogaethau, o radd i radd dringodd i fyny i fod yn berchenog ar lawer o dda'r byd hwn. Ond yr oedd ei air, ag oedd gystal a'i lw, a gwell na llw miloedd, ei ymarweddiad difrycheulyd, ei annibyniaeth ysbryd, ei ymddygiad diweniaeth a didderbyn wyneb, ei ofal i gyflawni ei addewidion—yr oedd y rhinweddau hyn ynddo yn annhraethol fwy eu gwerth nag un golud bydol. Yr oedd yn wrandawr cysson a chofus o'r gair yn Penrhiw hyd y gallodd. Yn awr, pan y mae ei le yn wag, gobeithio y cwyd rhyw ieuanc i'w lanw. Ychydig o bwys a roddai ef ar ordinhadau ac allanolion crefydd, ond credwn nad oedd neb a barchai yn fwy anhebgorion dyledswydd dyn a phethau mawrion crefydd bur. Yr oedd tyrfa anarferol o luosog yn yr angladd yn tystio eu parch iddo, a'u cydymdeimlad a'i deulu galarus. Dyddanwch Efengyl Crist a gynalio'r galarwyr yn eu tristwch. Yr oedd y gladdedigaeth yn mynwent Eglwys plwyfol Pemboyr. Wedi darllen a gweddio, pregethwyd yn y ty gan y Parch. Wm. Thomas o'r Llwyn.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, HEOL-Y-BRENIN, CAERFYRDDIN.